



FUNDRAISING
REGULATOR
RHEOLEIDDIWR
CODI ARIAN

Cod Ymarfer Codi Arian

Yn effeithiol o 1 Tachwedd 2025



Ynghylch y Rheoleiddiwr Codi Arian

Rydym yn rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl waith codi arian a wneir gan neu ar ran sefydliadau elusennol, dyngarol a buddiannol yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, rydym yn rheoleiddio codi arian yn yr Alban a wneir gan elusennau sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae ein rôl yn cynnwys cynnal a datblygu'r Cod Ymarfer Codi Arian ar gyfer y DU gyfan ac ymchwilio i gwynion gan aelodau'r cyhoedd ynghylch ymarfer codi arian os na ellir datrys y rhain gan yr elusennau eu hunain.

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Rheoleiddiwr Codi Arian a nodi dyddiad a theitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd trydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd gan ddeiliad yr hawlfraint.

© Rheoleiddiwr Codi Arian 2025



Cynnwys

Defnyddio'r cod 6

Rhan 1: Safonau sy'n berthnasol i bob math o godi arian 12

1. Ymddygiad wrth godi arian 13

- 1.1 Ymddygiad cyffredinol 13
- 1.2 Hysbysu rhoddwyr a thrin pobl yn deg 14

2. Cyfrifoldebau'r rhai sy'n llywodraethu sefydliadau elusennol 16

- 2.1 Dyletswyddau cyffredinol 16
- 2.2 Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion 17
- 2.3 Cwynion a phryderon am godi arian 18
- 2.4 Talu codwyr arian 19
- 2.5 Datganiadau deisyfu ar gyfer gweithwyr cyflogedig, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig 20
- 2.6 Defnyddio arian 21

3. Prosesu rhoddion 24

- 3.1 Arian parod 24
- 3.2 Tiliau 27
- 3.3 Fflôt 27
- 3.4 Sieciau, sieciau elusennol a thalebau 28
- 3.5 Trafodion cerdyn ac ar-lein 28

Rhan 2: Safonau sy'n berthnasol i weithio gydag eraill 29

4. Gwirfoddolwyr 30

- 4.1 Safonau sy'n berthnasol i'r holl wirfoddolwyr 31
- 4.2 Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ar ran 31

5.	Codi arian sy'n cynnwys plant a phobl mewn amgylchiadau bregus	33
5.1	Cyfrifoldebau wrth gynnwys plant mewn gweithgareddau codi arian	33
5.2	Diogelu a gweithio gyda phobl mewn amgylchiadau bregus	35
6.	Partneriaethau codi arian	37
6.1	Diwydrwydd dyladwy	38
6.2	Contractau a chytundebau	38
6.3	Monitro bod codwyr arian yn cadw at y cod	41
6.4	Datganiadau deisyfu ar gyfer codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol	41

Rhan 3:	Safonau sy'n berthnasol i ddulliau codi arian penodol	45
7.	Codi arian cyhoeddus	46
7.1	Ymddygiad wrth gasglu arian neu eiddo arall	46
7.2	Casgliadau stryd a safleoedd preifat	47
7.3	Codi arian o ddrws i ddrws	49
7.4	Trwyddedau, caniatâd ac adnabod codwyr arian	50
7.5	Rhoi'n gyfleus a chasgliadau heb staff	53
8.	Cyfathrebu a hysbysebu codi arian	57
8.1	Safonau cyffredinol	57
8.2	Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cyfathrebiadau codi arian a chynnwys ar-lein	59
8.3	Galwadau codi arian	61
8.4	Optio allan o gyfathrebiadau a chaniatâd	63
9.	Llwyfannau codi arian ar-lein	65
9.1	Cyfrifoldebau llwyfannau codi arian ar-lein	66

10. Digwyddiadau	68
10.1 Cynllunio'r digwyddiad	68
10.2 Hyrwyddo digwyddiad	69
10.3 Recriwtio cyfranogwyr a chasglu'r arian a godwyd	69
11. Cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim	72
11.1 Gofynion cyffredinol	72
11.2 Y raffl	73
12. Cyrff sy'n rhoi grantiau (gan gynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau)	74
12.1 Ceisiadau am grantiau a monitro	74
13. Rhoi drwy Gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth	75
13.1 Rhoi drwy Gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth	75
14. Etifeddiaeth	77
14.1 Cyfrifoldebau cyffredinol	77
14.2 Cyfathrebu wyneb yn wyneb	78
14.3 Cynnwys sefydliadau elusennol wrth wneud ewyllys	78
Geirfa	81

Defnyddio'r cod

Ym mis Gorffennaf 2016, daethom ni (y Rheoleiddiwr Codi Arian) yn gyfrifol am reoleiddio codi arian yn y DU a chymryd cyfrifoldeb am y Cod Ymarfer Codi Arian (y cod) gan y Sefydliad Codi Arian Siartredig. Ers hynny, rydym wedi diwedddaru'r cod sawl gwaith – yn dilyn ymgynghori, cyn cyflwyno'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ym mis Mai 2018 ac yna cyn y fersiwn a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2019 (cod 2019).



Mae'r cod yn berthnasol i weithgareddau codi arian at ddibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol yn y DU. Ei nod yw:

- hyrwyddo safonau codi arian cyson, uchel;
- esbonio'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan sefydliadau elusennol, eu cyrff llywodraethu a'u codwyr arian;
- esbonio'r hyn y byddwn yn ei ystyried wrth ymchwilio i gwynion;
- darparu gwybodaeth i sefydliadau elusennol i'w helpu i asesu eu gweithgaredd codi arian a delio ag unrhyw faterion y maent yn eu hadnabod; a
- datblygu diwylliant o fod yn onest, yn agored a dangos parch rhwng codwyr arian a'r cyhoedd.

Nid yw'r cod yn cwmpasu:

- codi arian ar gyfer achos personol (er enghraifft, rhywun sy'n codi arian i dalu am lawdriniaeth eu hanifail anwes); neu
- arferion ariannol a busnes sefydliadau elusennol, sy'n cael eu hymdrin gan gyrrff statudol yn gyffredinol.

Drwy'r cod, rydym yn anelu at sicrhau bod gweithgaredd codi arian yn bodloni'r gwerthoedd canlynol.



Cyfreithiol: Rhaid i godi arian fodloni gofynion y gyfraith.



Agored: Rhaid i godwyr arian fod yn glir am eu prosesau ac yn barod i'w hegluro pan fo angen.



Onest: Rhaid i godwyr arian weithredu gydag uniondeb ac ni ddylent gamarwain pobl wrth ofyn am roddion.



Parchus: Rhaid i godwyr arian barchu'r bobl a'r lleoedd y maent yn rhyngweithio â nhw.

Y cod, y gyfraith a chodau ymarfer a safonau eraill

Nid yw'r cod yn gyfreithiol rwymol. Mae'n amlinellu'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan godwyr arian sy'n cynnal gweithgareddau codi arian sy'n cael eu cwmpasu gan y cod. Rydym wedi cynnwys gwybodaeth gryno a dolenni i ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'n rheolau. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl cynnwys dolenni i bob darn o ddeddfwriaeth a allai fod yn berthnasol ar draws yr holl arferion codi arian, ac sy'n berthnasol yn fwy cyffredinol i sefydliadau elusennol.

Mae'r cod hefyd yn cynnwys dolenni i godau ymarfer a safonau eraill y diwydiant sy'n berthnasol i godi arian. Bwriad y cod yw ychwanegu at y safonau hyn, nid eu disodli.

Ni ddylech ddefnyddio'r cod fel eich unig ffynhonnell wybodaeth ar sut i gadw eich codi arian yn gyfreithlon. Dylech gael cyngor proffesiynol priodol i wneud yn siŵr nad yw eich gweithgaredd codi arian yn torri'r gyfraith.

Yr hyn y mae'r cod yn ei gwmpasu

Mae'r cod yn berthnasol i weithgareddau codi arian at ddibenion elusennol, dyngarol a llesïannol yn y DU. Mae gweithgaredd codi arian yn y DU gan sefydliadau nad ydynt wedi'u cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn dal i gael ei gwmpasu gan y cod. Byddwn yn ystyried cwynion am weithgaredd codi arian p'un a yw codwyr arian wedi'u cofrestru gyda ni ai peidio.

Er bod y cod yn berthnasol i weithgareddau codi arian yn yr Alban, mae cwynion am elusennau sydd wedi'u cofrestru'n yr Alban sy'n gweithredu yn yr Alban yn cael eu trin gan **Banel Dyfarnu Codi Arian** yr Alban.

Cymhwyso'r cod

Mae'r rhan fwyaf o reolau yn y cod yn dechrau gyda 'Rhaid i chi' neu eiriad tebyg, ond mae rhai rheolau penodol yn berthnasol mewn amgylchiadau penodol neu i sefydliadau neu bobl penodol yn unig. Mae pob adran o'r cod yn dechrau gyda'r geiriad canlynol: "Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw..." Bydd hyn yn eich helpu i ddeall a yw'r rheol yn berthnasol i chi a'ch gweithgaredd.

Mae'r sefydliadau a'r bobl y gallai **rheolau penodol yn y cod** fod yn berthnasol iddynt yn cynnwys:

- **sefydliadau elusennol** a'u staff, gan gynnwys:
 - elusennau cofrestredig;
 - cwmnïau buddiannau cymunedol (CICs);
 - mentrau cymdeithasol; ac
 - elusennau eithriedig (fel prifysgolion yn Lloegr).
- **codwyr arian proffesiynol**;
- **cyfranogwyr masnachol**;
- **llwyfannau codi arian**;
- **gwirfoddolwyr**; a
- chyflenwyr ac asiantaethau trydydd parti.

Rheolau yn seiliedig ar egwyddorion

Mae'r cod wedi'i ddiwygio'n sylweddol o fersiwn 2019. Nid yw bellach yn cynnwys rheolau sy'n gysylltiedig â deddfwriaeth benodol ac mae llawer o reolau wedi'u cyfuno o dan egwyddorion ehangach.

Mae gan y dull newydd hwn sawl mantais.

- **Llai rhagnodol:** Mae'n caniatáu i reolau gael eu cymhwyso mewn ystod ehangach o gyd-destunau, felly nid oes angen ei set ei hun o reolau ar bob dull codi arian penodol.
- **Mwy hyblyg:** It allows rules to be applied in a wider range of contexts, so each specific fundraising approach does not need its own set of rules.
- **Cymesur:** Mae'n caniatáu i godwyr arian ystyried camau priodol i'w cymryd yn seiliedig ar faint a natur eu gweithgareddau codi arian.
- **Yn barod i'r dyfodol:** Mae'n caniatáu i godwyr arian gymhwyso'r egwyddorion i ystod o gyd-destunau heb orfod aros am gyngor penodol am ddulliau newydd.

Mae llawer llai o reolau yng nghod 2025, sy'n ei wneud yn haws i'w ddilyn. Mae'r rheolau yn aml yn cynnwys termau y mae angen i godwyr arian eu dehongli, fel 'priodol', 'rhesymol' a 'cymesur'. O ganlyniad, nid oes angen i'r cod restru'r holl arferion sydd bob amser yn ofynnol a'r holl arferion nad ydynt byth yn cael eu caniatáu. Yn hytrach, mae'n annog codwyr arian i feddwl am sut mae eu gweithgaredd yn cwrdd â'r egwyddorion.

Er enghraifft, mae **rheol 2.2.2** yng nghod 2025 yn nodi:

Cyn derbyn rhodd, rhaid i chi gynnal diwydrwydd dyladwy priodol, sy'n gymesur â maint a natur y rhodd, ar y rhoddwr posibl.

Bydd diwydrwydd dyladwy 'priodol' a 'chymesur' yn amrywio yn dibynnu ar faint a natur y rhodd mewn perthynas â gweithgaredd codi arian arferol y sefydliad elusennol. Mae'n aml yn 'briodol' ac yn 'gymesur' peidio â chynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ffurfiol ar roddion arian parod bach. Ar gyfer rhoddion mwy o ffynonellau hysbys, bydd angen rhai gwiriadau, ond gall y rhain fod yn gymharol syml. Bydd rhoddion mawr annisgwyl, neu rai sy'n dod mewn ffurfiau anarferol fel benthyciadau, arian tramor neu cryptoasedau (fel Bitcoin), yn gofyn am wiriadau mwy cymhleth.

Er mwyn helpu codwyr arian i benderfynu beth sy'n briodol ac yn gymesur, mae llawer o'r rheolau newydd hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arferion derbyniol ac annerbyniol (gweler isod) a chanllawiau ychwanegol, gan gynnwys **Canllawiau Cymorth Codau (CSGs)**.

Pan fyddwn yn ymchwilio i gwynion o dan y rheolau newydd, byddwn yn cynnig cyfle i godwyr arian esbonio sut mae'r camau y maen nhw wedi'u cymryd, er enghraifft, yn 'briodol'. Rydym yn cyhoeddi canfyddiadau o'n hymchwiliadau i helpu codwyr arian eraill ddeall ein rheolau.

Rhestrau o enghreifftiau

Mae rheolau yn y cod yn aml yn cynnwys rhestrau mewn pwyntiau bwled sy'n amlinellu, er enghraifft:

- gweithredoedd nad ydynt byth yn cael eu caniatáu;
- camau gweithredu sydd bob amser yn ofynnol; a
- ffyrdd o fodloni egwyddor rheol.

Nid yw'r rhain wedi'u bwriadu i fod yn rhestrau cyflawn, ond byddant yn eich helpu i ddeall rhai o'r gweithredoedd a fyddai'n bodloni egwyddor y rheol neu beidio. Os ydym yn ymchwilio i'ch codi arian, efallai y byddwn yn gofyn i chi esbonio sut y gwnaethoch fodloni'r disgwyliadau a restrwyd, neu sut y gwnaethoch ddefnyddio dull gwahanol er mwyn bodloni'r rheol.

Testun esboniadol

Yn ogystal â rhestrau pwyntiau bwled, mae sawl rheol yn cael eu dilyn gan destun i'ch helpu i ddeall:

- sut y bydd rheol yn cael ei chymhwyso; ac
- a oes unrhyw ofynion cyfreithiol neu reoliadol pwysig eraill sy'n berthnasol.

Gan fod y wybodaeth hon ar wahân i'r rheolau, efallai y byddwn yn ei diweddarau'n fwy hyblyg (gweler Sut mae'r cod yn cael ei ddiweddarau, isod).

Dolenni i gyfreithiau a chanllawiau

Mae'r cod yn cynnwys dolenni i ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau gan reoleiddwyr y mae'n rhaid eu dilyn yn ôl y gyfraith (canllawiau statudol) a chynghor ehangach a allai fod yn ddefnyddiol wrth godi arian. Mae dolenni i ganllawiau statudol yn cael eu cyflwyno'n wahanol i gynghor ehangach gan sefydliadau yn y sector elusennau.

Ymrwymiad i'r cod

Mae pob sefydliad sydd wedi cofrestru gyda ni ac sy'n defnyddio'r **Bathodyn Codi Arian** wedi ymrwymo i fodloni safonau'r cod. Os nad yw'r sefydliadau hyn yn bodloni safonau'r cod, efallai y byddwn yn cymryd camau, megis gofyn iddynt dynnu'r Bathodyn Codi Arian o'u dogfennau a deunyddiau codi arian eraill.

Beth sy'n digwydd os yw codwr arian yn torri'r cod?

Efallai y byddwn yn dod yn ymwybodol y gallai codwr arian fod wedi torri'r cod **pan fyddwn yn derbyn cwyn** neu drwy ein monitro o weithgaredd codi arian. Os byddwn yn penderfynu ymchwilio i gwyn am weithgaredd codi arian, byddwn yn rhoi cyfleoedd i'r sefydliad elusennol esbonio eu dull codi arian a sut maen nhw'n credu bod hyn yn unol â'r cod. Os gwelwn fod y gweithgaredd codi arian wedi torri'r cod, byddwn fel arfer yn cyhoeddi gwybodaeth am hyn ar ein gwefan fel y gall y sector elusennol a'r cyhoedd ehangach weld canlyniad yr ymchwiliad a chymhwyso unrhyw wersi y gellir eu dysgu o'n penderfyniad.

O dan reol 2.1.3 o'r cod, rhaid i sefydliadau elusennol ymgysylltu'n adeiladol â ni a a'r phanel. Bydd sefydliad elusennol sy'n methu â gwneud hyn wedi torri'r cod ac efallai y byddwn yn cymryd camau yn eu herbyn o ganlyniad.

Sut mae'r cod yn cael ei ddiweddarau

Fe wnaethom ddatblygu'r cod newydd drwy ymgynghori helaeth â chodwyr arian a sefydliadau yn y sector elusennau. Byddwn yn cynnal ymgynghoriad pellach cyn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r rheolau yn y cod.

Gallwn ddiweddarau gwybodaeth ategol, megis y testun esboniadol o dan y rheolau a dolenni i ddeddfwriaeth a chanllawiau, gyda chymeradwyaeth ein **Pwyllgor Safonau**. Byddwn yn cyhoeddi unrhyw newidiadau i'r rhannau hyn o'r cod ar ein gwefan.

Rhan 1: Safonau sy'n berthnasol i bob math o godi arian

Mae'r ffordd y mae sefydliadau elusennol a chodwyr arian trydydd parti yn gofyn am gefnogaeth yn effeithio ar ymddiriedaeth a hyder pobl mewn codi arian. Mae'r rhan hon yn amlinellu'r ymddygiad yr ydym yn ei ddisgwyl gan yr holl godwyr arian. Mae'n cynnwys:

- trin pobl yn deg a gyda pharch
- egluro'ch achos mewn ffordd nad yw'n camarwain pobl
- sicrhau bod eich codi arian yn gyfrifol



1. Ymddygiad wrth godi arian

1.1 Ymddygiad cyffredinol



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

1.1.1 Rhaid i'ch gweithred codi arian fod yn gyfreithlon, yn agored, yn onest ac yn barchus.

Os canfyddir eich bod wedi torri'r gyfraith wrth godi arian, gellir ystyried hyn yn groes i reol 1.1.1, ac efallai y byddwn yn cymryd camau yn eich erbyn.

1.1.2 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod eich gweithred codi arian yn cael ei chynnal mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n gadarnhaol ar godi arian yn gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys:

- peidio ag ymyrryd yn afresymol ar breifatrwydd rhywun;
- peidio â rhoi pwysau gormodol ar rywun i roi;
- peidio â defnyddio dulliau mynych afresymol; a
- derbyn cais i roi terfyn ar ymgais codi arian.

1.1.3 Rhaid i chi beidio â beirniadu neu sarhau pobl neu sefydliadau eraill yn annheg.

1.1.4 Rhaid i chi beidio ag annog rhoddwr presennol neu ddarpar roddwr i ganslo neu newid rhodd bresennol er budd rhodd i sefydliad elusennol arall.

Nid yw'r rheol hon wedi'i bwriadu i gwmpasu sefyllfaoedd lle mae sefydliad elusennol yn newid strwythur (er enghraifft, yn uno) neu'n cael ei ddirwyn i ben. Yn y sefyllfaoedd hyn, efallai y bydd yn briodol i sefydliad elusennol annog rhoddwyr i drosglwyddo eu rhoddion i'r sefydliad newydd.

Canllawiau ar ymddygiad codi arian cyffredinol

Rheoleiddiwr Codi Arian: Ymddygiadau allweddol a ddisgwylir gan godwyr arian

1.2 Hysbysu rhoddwyr a thrin pobl yn deg



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

1.2.1 Ni ddylai eich gweithred codi arian gamarwain rhoddwyr presennol neu ddarpar roddwyr. Mae hyn yn cynnwys drwy:

- hepgor gwybodaeth;
- rhoi gwybodaeth anghywir neu aneglur; neu
- gorliwio manylion.

Er enghraifft, rhaid i chi beidio â honni y bydd rhodd yn cael ei defnyddio at ddiben cyfyngedig (fel prynu darn o offer meddygol neu helpu plentyn penodol) os yw'n debygol o gael ei defnyddio at ddiben arall.

1.2.2 Wrth gasglu rhoddion at ddiben cyfyngedig, rhaid i chi ddarparu gwybodaeth am yr hyn a fydd yn digwydd os byddwch chi'n codi mwy neu lai na'r swm targed.



Dibenion eilaidd

Mae elusennau yn aml yn gofyn am roddion at bwrpas penodol neu gyda tharged mewn golwg, megis trwsio to eglwys neu brynu darn o offer meddygol. Weithiau nid yw'r ymgyrchoedd hyn yn codi digon o arian i gyrraedd eu targed, ac weithiau maen nhw'n codi mwy o arian nag sydd ei angen. Os bydd hyn yn digwydd, efallai y bydd angen ad-dalu rhai neu'r cyfan o'r rhoddion.

Un ffordd o ddelio â hyn yw cynnwys gwybodaeth glir am bwrpas eilaidd wrth ofyn am roddion. Gall hyn fod ar ffurf esboniad byr o sut y bydd arian a roddwyd at y diben gwreiddiol yn cael ei ddefnyddio os nad yw'r targed yn cael ei gyrraedd, neu os yw swm mwy na'r swm targed yn cael ei godi.

Mae enghreifftiau'n cynnwys defnyddio'r arian at ddiben tebyg arall, neu ei roi tuag at waith cyffredinol y sefydliad elusennol.

Canllawiau ar ddibenion eilaidd

Rheoleiddiwr Codi Arian: **Beth i'w wneud os ydych chi'n codi mwy o roddion nag sydd eu hangen arnoch, nad ydych chi'n codi digon, neu os ydych chi'n methu cyflawni eich pwrpas**

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: **Apeliadau codi arian elusennol at ddibenion penodol**

**Cyngor y sector ar
drin rhoddwyr yn deg**

Sefydliad Siartredig
Codi Arian (CIOF):
Trin rhoddwyr yn deg

1.2.3 Rhaid i chi gael tystiolaeth briodol cyn i chi wneud unrhyw honiad yn eich gweithred codi arian sy'n debygol o gael ei gymryd yn llythrennol. Mae hyn yn cynnwys honiadau uniongyrchol a honiadau awgrymiadol.

Mae hyn yn cynnwys honiadau am y costau sy'n gysylltiedig â'ch gweithgaredd codi arian.

1.2.4 Rhaid i chi beidio â manteisio ar gamgymeriadau a wnaed gan roddwr.

1.2.5 Rhaid i chi esbonio nad ydych chi'n cynnig cyngor ariannol wrth siarad â rhoddwr am unrhyw fanteision ariannol o wneud rhodd.

1.2.6 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i drin rhoddwyr presennol neu ddarpar roddwyr yn deg, fel y gallant wneud penderfyniad gwybodus am unrhyw rodd.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer trin pobl yn deg

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, o dan Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr nad yw eich gweithred codi arian yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd â nodweddion sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith.

Yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i weithred codi arian fodloni cyfraith cydraddoldeb fel y mae'n berthnasol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr nad yw eich gweithred codi arian yn gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith. Mae gan bob nodwedd sy'n cael ei warchod ei darn penodol ei hun o ddeddfwriaeth, ac nid yw cyfraith gwrth-wahaniaethu wedi'i grwpio gyda'i gilydd mewn un ddeddf benodol.

Ewch i'r dolenni canlynol i gael rhagor o wybodaeth am hyn.

- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
- Yng Ngogledd Iwerddon: Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon

Cyngor y sector ar ddiogelu a chodi arian

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO):

- [Pobl sydd angen eu diogelu wrth godi arian](#)
- [Diogelu ar gyfer rheolwyr codi arian](#)

Canllawiau ar ddiogelu data y

Rheoleiddiwr Codi Arian: [Yr hawliau sydd gan bobl dros eu data](#)

Rheoleiddiwr Codi Arian: [Gofynion cyfreithiol ar gyfer storio, cynnal a rhannu data](#)

2. Cyfrifoldebau'r rhai sy'n llywodraethu sefydliadau elusennol

Mae gan y bobl sy'n llywodraethu sefydliadau elusennol (fel ymddiriedolwyr elusen) gyfrifoldeb i weithredu er budd eu sefydliad. Maen nhw'n gyfrifol am godi arian. Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau yr ydym yn eu disgwyl ganddynt, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag asesiadau risg a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion ac ar gyfer sicrhau bod rhoddion yn cael eu defnyddio at y dibenion y maent yn cael eu rhoi ar eu cyfer.

2.1 Dyletswyddau cyffredinol



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw corff llywodraethu sefydliad elusennol.

2.1.1 Rhaid i chi weithredu'n rhesymol ac yn ofalus ym mhob mater sy'n ymwneud â chodi arian. Gall hyn gynnwys:

- cymryd cyfrifoldeb cyffredinol am weithgareddau codi arian, gan gynnwys y rhai rydych chi wedi'u dirprwyo i eraill;
- dilyn codau a chanllawiau gan reoleiddwyr perthnasol;
- sicrhau bod eich gweithgareddau codi arian yn cadw at ofynion diogelu data;
- cael cyngor priodol pan fo angen;
- ystyried effaith ymgyrchoedd codi arian dadleuol;
- asesu a rheoli risgiau y mae codi arian yn eu peri i weithgareddau, buddiolwyr, eiddo, gwaith ac enw da eich sefydliad elusennol; a
- bodloni unrhyw ofynion adrodd a chyfrifyddu sy'n berthnasol i rodd.

2.1.2 Rhaid i chi gymryd camau rhesymol i amddiffyn codwyr arian rhag niwed ac aflonyddu wrth godi arian. Mae hyn yn cynnwys:

- cael prosesau i godwyr arian adrodd am unrhyw broblemau sy'n codi; a
- cymryd camau rhesymol i ddelio a mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n cael eu hadrodd i chi.

Canllaw ar ymgysylltu
â'r Rheoleiddiwr Codi
Arian

**Canllawiau ar
lywodraethu
a dogfennu
Penderfyniadau**

Rheoleiddiwr
Codi Arian:

Gofynion cyfreithiol
cyffredinol cyrff
llywodraethu

Dogfennu eich
penderfyniadau
codi arian

2.1.3 Rhaid i chi ymgysylltu'n adeiladol ac o fewn amser priodol i unrhyw ymholiadau a gewch gennym ni neu Banel Dyfarnu Codi Arian yr Alban sy'n ymwneud â chadw at y cod. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr bod eich partneriaid codi arian yn gwneud yr un peth.

2.1.4 Rhaid i chi allu dangos eich bod wedi gweithredu er budd eich sefydliad elusennol wrth godi arian. Mae hyn yn cynnwys:

- adnabod a delio â gwrthdaro buddiannau posibl;
- sicrhau bod rhoddion yn cael eu defnyddio at y dibenion y maent yn cael eu rhoi ar eu cyfer; ac
- ei gwneud hi'n glir i bobl sy'n codi arian ar eich rhan bod yn rhaid anfon pob rhodd i'ch sefydliad elusennol.

2.1.5 Rhaid i chi beidio â gwerthu data personol (gwybodaeth) i unrhyw sefydliad arall, na'i rannu â nhw oni bai bod gennych gydsyniad (caniatâd) perchennog y wybodaeth i wneud hynny.

Os ydych chi'n rhannu data personol at ddibenion codi arian neu farchnata uniongyrchol, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn disgwyl i chi ddweud wrth y person dan sylw enw unrhyw drydydd parti rydych chi'n rhannu eu data personol â nhw.

2.1.6 Os ydych chi'n dibynnu ar ddiddordeb cyfreithlon fel y sail gyfreithlon (rheswm cyfreithiol) dros brosesu data personol, rhaid i chi gofnodi manylion eich penderfyniadau yn unol â gofynion yr ICO.

2.2 **Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion**



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw corff llywodraethu sefydliad elusennol.

2.2.1 Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylech wrthod neu ddychwelyd rhoddion. Os ydych chi'n penderfynu gwrthod neu ddychwelyd rhodd, rhaid i chi gofnodi eich penderfyniad yn briodol.

Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y rhai sy'n codi arian ar eich rhan yn ymwybodol bod yn rhaid i benderfyniadau sy'n ymwneud â gwrthod neu ddychwelyd rhodd gael eu gwneud gennych chi neu yn unol â pholisi rydych chi wedi'i osod.

Cyngor gan y sector ar ad-dalu rhodd.

Sefydliad Codi Arian Siartredig (CloF): Derbyn, gwrthod a dychwelyd: Canllaw ymarferol i ddelio â rhoddion

Canllawiau ar dderbyn a gwrthod rhoddion

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (CCEW): Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion i'ch elusen

Rheoleiddiwr Codi Arian: Diwydrwydd dyladwy a chodi arian

2.2.2 Rhaid i chi gynnal diwydrwydd dyladwy priodol, sy'n gymesur â maint a natur y rhodd, ar y rhoddwr posibl cyn derbyn rhodd.

2.2.3 Dim ond yn unol â pholisïau eich sefydliad elusennol neu mewn amgylchiadau eithriadol y mae'n rhaid i chi ad-dalu rhodd. Fodd bynnag, rhaid i chi ad-dalu rhodd os yw rhoddwr yn arfer ei hawl i ad-daliad yn gywir.

Cyn i chi ad-dalu rhodd, rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych y pŵer i wneud hyn. Os nad yw'n glir a ddylech ad-dalu rhodd ai peidio, ystyriwch gael cyngor cyfreithiol.

2.3 Cwynion a phryderon am godi arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw corff llywodraethu sefydliad elusennol.

2.3.1 Rhaid i chi gael gweithdrefn gwyno codi arian glir sydd ar i'r cyhoedd y gall codwyr arian ei hegluro i roddwyr presennol neu ddarpar roddwyr.

Os nad oes gan eich partneriaid codi arian weithdrefn gwyno addas eu hunain, mae'n rhaid iddynt gytuno i ddilyn eich un chi.

2.3.2 Pan fyddwch chi neu bartner codi arian yn derbyn cwynion am eich gweithgaredd codi arian, rhaid i chi:

- ymchwilio'n drylwyr ac yn deg;
- ymateb yn deg ac mewn ffordd sy'n briodol i'r gŵyn;
- osgoi oedi diangen; ac
- adolygu cwynion yn rheolaidd a defnyddio unrhyw wersi perthnasol i'w dysgu.

2.3.3 Rhaid i chi gael gweithdrefn glir, wedi'i chyhoeddi sy'n esbonio sut y gall staff a gwirfoddolwyr roi gwybod am unrhyw bryderon sydd ganddynt am eich ymarfer codi arian. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y weithdrefn yn cynnwys:

- y math o faterion y gellir eu codi a'r broses ar gyfer gwneud hynny;
- sut y bydd y person sy'n codi pryder yn cael ei amddiffyn rhag erledigaeth ac aflonyddu;
- beth fyddwch chi'n ei wneud pan fyddwch chi'n derbyn pryder; a
- sut i roi gwybod am bryderon i ni neu Banel Dyfarnu Codi Arian yr Alban os nad yw'n bosibl eu hystyried neu fynd i'r afael â nhw'n briodol yn eich sefydliad elusennol.

2.4 Talu codwyr arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw corff llywodraethu sefydliad elusennol.

2.4.1 Rhaid i chi roi ystyriaeth briodol i'r dull rydych chi'n ei ddewis ar gyfer talu codwyr arian ac a yw hyn yn cyd-fynd â gwerthoedd eich sefydliad elusennol.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer talu codwyr arian

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr bod unrhyw godwyr arian sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan eich sefydliad elusennol yn cael eu talu yn unol â deddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys y canlynol.

- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 (fel y'i diwygiwyd)
- Gorchymyn Hawliau Cyflogaeth (Gogledd Iwerddon) 1996

Dim ond os ydynt yn bodloni amodau penodol fel sy'n cael ei nodi yn y dogfennau a'r ddeddfwriaeth

Canllawiau ar gwynion

Rheoleiddiwr Codi Arian: Canllawiau ymdrin â chwynion



ganlynol y gallwch dalu ymddiriedolwyr elusennau am godi arian:

- Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr: **Taliadau i ymddiriedolwyr elusennau: beth yw'r rheolau ac adran 185 o Ddeddf Elusennau 2011**
- Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban (OSCR): **Canllawiau ac arfer da ar gyfer ymddiriedolwyr elusennau ac adran 67 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005**
- Comisiwn Elusennau Gogledd Iwerddon: **Canllawiau ar dreuliau a thaliadau ymddiriedolwyr ac sadran 88 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008**

2.5 Datganiadau deisyfu ar gyfer gweithwyr cyflogedig, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw cyflogeion, swyddogion ac ymddiriedolwyr cyflogedig sefydliad elusennol neu gwmni cysylltiedig.

Mae datganiadau erfyniad yn ddatganiadau y mae'n rhaid i rai gweithwyr cyflogedig, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig eu rhoi wrth godi arian ar gyfer sefydliad elusennol. Maen nhw'n esbonio sut y bydd y sefydliad elusennol yn elwa o'r gweithgaredd codi arian.

Rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol hefyd roi datganiadau erfyniad. Mae rhagor o wybodaeth am y datganiadau erfyniad hyn yn **adran 6.4 Datganiadau erfyniad ar gyfer codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol.**

2.5.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod datganiadau erfyniad yn glir, yn gywir ac yn gyfredol.

2.5.2 Rhaid i chi wneud datganiad erfyniad cyn:

- i roddwr posibl roi unrhyw arian; neu
- eich bod yn gofyn am unrhyw fanylion ariannol sy'n ymwneud â rhodd.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer datganiadau erfyniad gan weithwyr cyflogedig, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig

Yng Nghymru a Lloegr: O dan Yng Nghymru a Lloegr: O dan adrannau 60A a 60B o Ddeddf Elusennau 1992 mae'n ofyniad cyfreithiol i berson sy'n swyddog neu'n gyflogai i sefydliad elusennol neu gwmni cysylltiedig neu ymddiriedolwr sefydliad elusennol roi datganiad erfyniad os ydynt yn gweithredu fel casglwr yn y rôl honno ac yn derbyn taliad o fwy na £10 y dydd neu £1,000 y flwyddyn naill ai am ei rôl neu ar gyfer gweithredu fel casglwr.

Yn yr Alban: Mae swyddogion, gweithwyr neu ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol neu gwmnïau cysylltiedig yn godwyr arian cymwynasgar at ddibenion Rheoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009 wrth godi arian ar ran sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig a bydd angen iddynt gadw at y rheoliadau hynny, gan gynnwys rheoliad 3 ar ddatganiadau erfyniad.

Rhagor o wybodaeth:

- **Yng Nghymru a Lloegr:** Swyddfa'r Cabinet: pennod 4 ac Atodiad C o Ganllawiau ar Ran 2 o Ddeddf Elusennau 1992
- **Yn yr Alban:** OSCR: datganiad A o Canllaw Technegol: Rheoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009

2.6 Defnyddio arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw corff llywodraethu sefydliad elusennol.

2.6.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw amodau ar dderbyn rhodd, a osodwyd gennych chi neu'r rhoddwr, o fewn dibenion eich sefydliad elusennol.

2.6.2 Rhaid i chi gadw cofnod o roddion a roddir at ddibenion penodol i wneud yn siŵr eich bod yn cadw at amodau'r rhodd.



Cynnig buddion gyda rhodd

Mae rhai sefydliadau'n darparu buddion yn gyfnewid am rodd. Gall y rhain amrywio o fuddion bach iawn (er enghraifft, cylchlythyr neu feiro wedi'i frandio) i rai mwy arwyddocaol (fel mynediad at ddigwyddiadau unigryw).

Gall darparu buddion yn gyfnewid am rodd gael canlyniadau treth. Yn benodol, gall lefel y buddion a dderbynnir effeithio ar a yw rhodd yn gymwys i gael Cymorth Rhodd. Mewn rhai amgylchiadau lle derbynnir buddion, gellir ystyried rhodd yn daliad am nwyddau neu wasanaethau, a all olygu bod TAW yn cael ei godi.

2.6.3 Os ydych chi'n annog rhywun i gyfrannu trwy gynnig budding, rhaid i chi wneud yn siŵr:

- eich bod wedi'ch awdurdodi i roi'r buddion;
- bod y buddion yn briodol yn yr amgylchiadau; a
- bod y buddion yn gymesur â maint ac amllder y rhodd.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer defnyddio arian

Mae'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd gennych fel corff llywodraethu yn amrywio yn dibynnu ar ble a sut mae eich sefydliad elusennol wedi'i gofrestru. Yn gyffredinol, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi:

- ofyn am arian at ddiben sy'n cyfateb i'ch sefydliad elusennol yn unig;
- gwneud yn siŵr bod arian a godir ar gyfer achos penodol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer yr achos hwnnw; a
- defnyddio arian yn unol ag unrhyw amodau rydych chi wedi cytuno iddynt neu sydd wedi'u gosod gan y rhoddwr.

Rhaid defnyddio rhodd at y diben y'i rhoddwyd ar ei gyfer. Os ydych am newid y diben hwnnw, dylech gael cyngor gan gynghorwyr cyfreithiol neu'r rheoleiddiwr statudol perthnasol cyn newid y pwrpas, hyd yn oed os yw'r person sy'n gwneud y rhodd wedi rhoi caniatâd i chi wneud hyn.

Canllawiau ar gynnig buddion gyda rhodd

Cyllid a Thollau EF:

Pennod 3.18 Buddion a dderbynnir gan roddwyr a phersonau cysylltiedig

Sut mae TAW yn effeithio ar elusennau (Hysbysiad TAW 701/1)

Nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i elusennau (Hysbysiad TAW 701/58)

Grŵp Treth Elusennau:
Buddion rhoddwyr Cymorth Rhodd



Mae'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer elusennau cofrestredig fel a ganlyn.

- Yng Nghymru a Lloegr: **Deddf Elusennau 2011**
- Yn yr Alban: **Deddf Buddsoddi Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005**
- Yng Ngogledd Iwerddon: **Deddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008**

Mae cwmnïau buddiannau cymunedol (CIC) yn cael eu cwmpasu gan **Ddeddf Cwmnïau 2006**.

3. Prosesu rhoddion

Mae'r adran hon yn cynnwys safonau sy'n ymwneud â thrin gwahanol fathau o daliadau (gan gynnwys taliadau untro ac ymrwymadau rhoddion parhaus) i sicrhau bod rhoddion yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am Gymorth Rhodd.

3.1 Arian parod



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

3.1.1 Rhaid i chi gael gweithdrefnau ar gyfer cyfrif, cofnodi a bancio rhoddion cyn gynted â phosibl. Rhaid i'r gweithdrefnau amlinellu pwy sy'n gwneud beth, a phryd a sut y bydd hyn yn cael ei fonitro. Rhaid i'r gweithdrefnau wneud yn siŵr:

- nad yw arian parod ansicredig yn cael ei adael heb oruchwyliaeth;
- bod arian parod yn cael ei fancio cyn gynted â phosibl;
- bod arian parod yn cael ei gadw mewn sêff neu fan diogel arall nes ei fod yn cael ei fancio;
- bod arian parod yn cael ei gyfrif a'i gofnodi mewn lle diogel gan ddau berson nad ydynt yn gysylltiedig, os yn bosibl; a
- bod yr arian parod rydych chi wedi'i fancio yn cyfateb i'ch crynodebau incwm (os yn bosibl, dylai hyn gael ei wirio gan rywun nad oedd yn ymwneud â chyfrif neu ariannu'r arian).

Mae codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol (a phobl sy'n codi arian ar eu cyfer) wedi'u gwahardd yn gyfreithiol rhag cymryd unrhyw arian o'r arian parod y maen nhw'n ei dderbyn.

3.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod rhoddion arian parod yn cael eu cyfri yn briodol. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw codwyr arian trydydd parti yn cymryd unrhyw dreuliau neu ffioedd o'r arian parod sydd wedi'i roi, oni bai bod y rhain wedi'u cytuno cyn y gweithgaredd codi arian.



Cymorth Rhodd

Mae Cymorth Rhodd yn caniatáu i elusennau cofrestredig hawlio treth ar roddion gan drethdalwyr y DU. Mae hyn yn cynyddu swm y rhodd i bob pwrpas. Cyllid a Thollau EF (CThEF) yw'r prif gorff statudol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â threth, gan gynnwys Cymorth Rhodd.

Os ydych chi am hawlio Cymorth Rhodd, rhaid i chi:

- hawlio Cymorth Rhodd neu hawlio rhyddhad treth o dan y Cynllun Rhoddion Bach Cymorth Rhodd dim ond os yw'r holl amodau yn cael eu bodloni a'ch bod yn gymwys i'w hawlio; a
- cadw'r wybodaeth ddiweddaraf am ganllawiau gan CThEF ar sut mae'r system dreth yn gweithio, gan gynnwys y canllawiau ar Hawlio Cymorth Rhodd, Buddion a dderbynnir gan roddwyr a phersonau cysylltiedig a'r Cynllun Rhoddion Bach Cymorth Rhodd.

Blychau casglu arian parod

3.1.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y sefydliad elusennol yn derbyn y swm llawn o'r holl flychau casglu wedi'u selio heb unrhyw dreuliau neu ffioedd wedi'u cymryd, oni bai bod cytundeb ymlaen llaw y gellir cymryd y rhain.

Yn yr Alban, gall codwyr arian ddidynnu eu ffioedd a'u treuliau o'r blychau casglu cyn talu'r swm sy'n weddill i'r sefydliad elusennol, yn unol â rheoliad 11(3)(d) o Reoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (Yr Alban) 1984.

3.1.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl flychau casglu wedi'u selio wedi'u labelu, eu rhifo a'u selio.

Derbynebau

3.1.5 Rhaid i chi ddarparu derbynneb wedi'i llofnodi â llaw neu un ddigidol ar gyfer rhoddion casglu arian parod nad ydynt wedi'u gwneud gan ddefnyddio blwch casglu wedi'i selio.

3.1.6 Rhaid i chi roi derbynneb i godwyr arian pan fyddant yn dychwelyd blychau casglu wedi'u selio.

3.1.7 Rhaid i chi roi derbynneb i'r person sy'n berchen ar neu sy'n rheoli safle preifat rydych chi'n casglu arno os ydynt yn gofyn am un. Dylai'r dderbynneb gynnwys:

- cyfeiriad y safle;
- rhif y blwch;
- dyddiad y casgliad; ac
- y swm a dderbyniwyd.



Rheoliadau enghreifftiol ar gyfer blychau casglu arian parod

Yn yr Alban, Gogledd Iwerddon neu awdurdod trwyddedu sy'n dilyn y **rheoliadau enghreifftiol** yng **Nghymru a Lloegr**, yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob blwch casglu gael ei labelu, ei rifo a'i selio.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer blychau casglu arian parod

Yng Nghymru a Lloegr, gall pob awdurdod trwyddedu osod ei rheoliadau ei hun ar gyfer sut y dylid defnyddio blychau casglu arian mewn casgliadau stryd. Mae llawer o awdurdodau trwyddedu wedi mabwysiadu'r rheoliadau enghreifftiol a ddarperir gan **Orchymyn Casgliadau Elusennol (Darpariaethau Trosiannol) 1974**.

Yn Llundain, mae casgliadau stryd yn cael eu llywodraethu gan **Reoliadau Casgliadau Stryd (Ardal yr Heddlu Metropolitan) 1979** a **Rheoliadau Casgliadau Stryd Dinas Llundain 1980**. Os ydych chi'n defnyddio blychau casglu arian parod fel rhan o gasgliadau stryd yn Llundain neu mewn awdurdod trwyddedu sydd wedi mabwysiadu'r rheoliadau enghreifftiol yn gyfreithiol rhaid i chi:

- roi rhoddion arian parod mewn cynhwysydd neu flwch casglu wedi'i selio; a
- sicrhau bod hyrwyddwr y casgliad ac un person cyfrifol arall neu swyddog banc yn bresennol pan fyddwch chi'n agor blychau casglu.

Yng Nghymru a Lloegr, os ydych chi'n defnyddio blychau casglu arian parod fel rhan o gasgliadau o dŷ i dŷ, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi gadw at **Reoliadau Casgliadau Tŷ i Dŷ 1947**.



Yn yr Alban, mae prosesau ar gyfer newid a bancio rhoddion o gasgliadau sydd wedi'u trwyddedu gan y cyngor lleol ac a wnaed gan ddefnyddio blychau casglu neu amlenni wedi'u selio, yn cael eu cwmpasu gan **Reoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (Yr Alban) 1984**. O dan y rheoliadau hyn, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi:

- ddim ond derbyn rhoddion arian parod trwy ganiatáu i'r rhoddwr eu rhoi yn syth yn y blwch casglu wrth gynnal casgliadau wedi'u trwyddedu gan y cyngor lleol; neu
- os gwneir y casgliad gan ddefnyddio amlenni wedi'u selio, ddim ond derbyn rhoddion yn yr amlenni wedi'u selio a'u rhifo priodol.

Yng Ngogledd Iwerddon nid oes deddfwriaeth benodol ar gyfer blychau casglu. Fodd bynnag, mae **Deddf yr Heddlu, Ffatrioedd, etc. 1916 (fel y bo'n berthnasol)** a **Rheoliadau Casgliadau mewn Strydoedd (Gogledd Iwerddon) 1927** yn amlinellu rheoliadau ar gyfer casgliadau strydoedd.

Am safonau pellach ar flychau casglu arian parod, gweler **adran 7.5 Casgliadau heb staff**.

3.2 Tiliau



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

3.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl arian yn cael ei roi yn y til ar unwaith a bod unrhyw newid yn cael ei roi o'r til, nid o arian personol.

3.3 Fflôt



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

3.3.1 Wrth ddefnyddio fflôt, rhaid i chi wneud yn siŵr:

- bod y person rydych chi wedi'i enwebu wedi llofnodi amdano
- bod arian parod y fflôt yn cael ei gadw ar wahân i arian personol y bobl sy'n ei drin; a
- bod cofnod ar wahân yn cael ei gadw o unrhyw arian fflôt a ddefnyddir ar gyfer arian mân.

3.4 Sieciau, sieciau elusennol a thalebau



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

3.4.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod sieciau, sieciau elusennol a thalebau yn cael eu prosesu'n briodol a heb oedi. Mae hyn yn cynnwys:

- defnyddio dulliau diogel, sy'n briodol i werth y rhodd, i'w hanfon i fanciau neu dai cyflawni;
- peidio â rhoi newid yn gyfnewid am sieciau; a
- pheidio â rhoi ad-daliadau am rodd siec nes bod y siec wedi clirio ac mae'r arian wedi ymddangos yn eich cyfrif.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer sieciau elusennol a thalebau

O dan Ddeddf Treth Incwm 2007, rydych wedi'ch gwahardd yn gyfreithiol rhag hawlio treth yn ôl ar rodd siec elusennol neu daleb, gan fod Cymorth Rhodd wedi'i ychwanegu cyn i chi ei dderbyn.

3.5 Trafodion cerdyn ac ar-lein



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

Mae'r adran hon yn berthnasol i drafodion lle mae'r rhoddwr yn bresennol a lle nad ydynt. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau talu wedi'u staffio a heb staff, fel Tap to Donate, a thaliadau ar-lein ar wefan sefydliad elusennol. Bydd y camau y mae angen i chi eu cymryd i sicrhau bod taliadau'n ddiogel yn amrywio yn dibynnu ar nifer y trafodion sy'n cael eu gwneud.

3.5.1 Rhaid i chi ddefnyddio mesurau diogelwch priodol ar gyfer trafodion ar-lein a cherdyn.

Canllawiau ar fesurau diogelwch

Safonau Diogelwch
Data y Diwydiant
Cardiau Talu (PCI-DSS)

Rheolau'r Cynllun
Debyd Uniongyrchol

Rhan 2: Safonau sy'n berthnasol i weithio gydag eraill

Bydd y safonau yn y rhan hon yn berthnasol pan fo sefydliad yn gweithio gydag eraill i ymgymryd â gweithgaredd codi arian. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng sefydliadau elusennol a:

- gwirfoddolwyr
- pobl mewn amgylchiadau bregus
- partneriaid codi arian

Mae'r rhan hon hefyd yn cynnwys safonau penodol sy'n berthnasol wrth weithio gyda phlant.



4. Gwirfoddolwyr

Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar weithio gyda chodwyr arian gwirfoddol lle mae eu gweithgaredd yn hysbys i'ch sefydliad. Mae'r cod yn gwahaniaethu rhwng gwirfoddolwyr 'er budd' ac 'ar ran'. Am ragor o wybodaeth am y gwahanol fathau o drefniadau codi arian gwirfoddolwyr, gweler ein [**canllawiau**](#) ar wirfoddolwyr.

Efallai y bydd rhai gwirfoddolwyr er budd yn dod o fewn y diffiniad o gyfranogwr masnachol, ac yn yr achos hwnnw [**bydd adran 6 Partneriaethau codi arian**](#) hefyd yn berthnasol i'r gwirfoddolwyr hyn.



Atal codi arian heb awdurdod

Mae [**Deddf Elusennau 1992**](#) a [**Deddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr \(Yr Alban\) 2005**](#) yn rhoi'r hawl i sefydliadau elusennol wneud cais am orchymyn llys i atal codi arian heb awdurdod os:

- yw unrhyw berson yn defnyddio dulliau codi arian y mae'r sefydliad elusennol yn ei wrthwynebu;
- yw'r sefydliad elusennol yn credu nad yw person yn berson addas a phriodol i godi arian ar eu rhan; neu
- nad yw'r sefydliad elusennol eisiau bod yn gysylltiedig â hyrwyddiad penodol.

4.1 Safonau sy'n berthnasol i'r holl wirfoddolwyr



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol.

4.1.1 Rhaid i chi gynnig hyfforddiant a chefnogaeth i wirfoddolwyr er budd ac ar ran sy'n briodol i'r berthynas sydd ganddynt â chi.

Dylai'r hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr ar ran gynnwys:

- sut i godi arian yn gyfreithlon ac yn ddiogel;
- trin a phrosesu rhoddion;
- beth ddylid ac na ddylid ei gynnwys mewn deunyddiau codi arian; ac
- yr ymddygiad a ddisgwyli'r gan wirfoddolwyr a lle gallant gael cymorth ac arweiniad.

Os byddwch chi'n dod yn ymwybodol o wirfoddolwyr er budd cyn gweithgaredd codi arian, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i wneud yn siŵr eu bod nhw:

- yn defnyddio'r ymadrodd 'er budd' wrth ddisgrifio'r codi arian maen nhw'n ei wneud i'ch sefydliad elusennol, i wahaniaethu rhwng eu gweithgaredd codi arian nhw a'ch un chi;
- yn gwybod eu bod yn gyfrifol am drefnu pob agwedd ar eu codi arian ac ni fyddwch yn derbyn unrhyw atebolrwydd yn ymwneud â hynny; a
- yn gallu dod o hyd i wybodaeth am sut i godi arian yn gyfreithlon ac yn ddiogel.

4.1.2 Rhaid i chi beidio â thalu gwirfoddolwyr am godi arian, ond gallwch dalu eu treuliau rhesymol.

4.1.3 Os ydych chi'n gwybod am godi arian gwirfoddolwr ymlaen llaw, rhaid i chi wneud yn siŵr bod trefniadau priodol yn eu lle i arian gael ei drosglwyddo atoch yn gyflym ac yn effeithlon.

4.2 Ystyriaethau penodol wrth weithio gyda gwirfoddolwyr ar ran



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol.

4.2.1 Rhaid i chi gynnal gwiriadau priodol i wneud yn siŵr bod codwyr arian gwirfoddol ar ran yn addas i gynrychioli eich sefydliad elusennol.

Cyngor gan y sector ar gostau gwirfoddolwyr

Cyngor Cenedlaethol y Mudiadau Gwirfoddol (NCVO): [Talu treuliau gwirfoddolwyr](#)

Yng Ngogledd Iwerddon: Gwirfoddoli Nawr: [Canllawiau ar gyfer darparu treuliau gwirfoddolwyr a ffurflen hawlio](#)



Cyngor y sector ar DBS

NCVO: [Gwasanaeth
datgelu a gwahardd
\(DBS\)](#)

Gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy

Mae gan gyrff llywodraethu sefydliadau elusennol ddyletswydd gyfreithiol gyffredinol i amddiffyn eu henw da a'r rhai sy'n elwa o'u gwaith. Mae Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (CCEW) yn disgwyl i ymddiriedolwyr elusennau gynnal gwiriadau priodol i wneud yn siŵr bod pobl sy'n gweithio i'r elusen neu'n cynrychioli'r elusen yn addas. Gallwch wirio cofnodion troseddol unrhyw staff a gwirfoddolwyr dros 16 oed drwy ofyn am wiriad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Ar gyfer unrhyw rôl sy'n cynnwys cyswllt â phlant neu oedolion bregus, dylech ystyried gofyn am wiriad mwy manwl, sef gwiriad DBS lefel uwch.

Mae **Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974**, **Deddf yr Heddlu 1997** a deddfwriaeth a wnaed o dan y deddfau hyn yn disgrifio pa lefel o wiriad DBS y caniateir i chi ofyn amdano. Mae hyn yn dibynnu ar rôl y person neu'r gweithgareddau y byddant yn eu gwneud. Ni ddylech ofyn am wiriadau oni bai y caniateir i chi wneud hynny'n gyfreithiol, gan ddefnyddio'r **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** (yng Nghymru a Lloegr), **Disclosure Scotland** neu **Access NI (Gogledd Iwerddon)**.

O dan Ddeddf **Casgliadau Tŷ i Dŷ 1939**, os yw gwirfoddolwyr yn cynnal casgliadau o dŷ i dŷ ar eich rhan, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi gynnal diwydrwydd dyladwy i wneud yn siŵr bod pob gwirfoddolwr yn 'person addas a phriodol'.

Rhagor o wybodaeth:

Swyddfa'r Cabinet: **Cynllun gorchymyn eithriad cenedlaethol**

Canllaw ar Ddiwydrwydd Dyladwy

Rheoleiddiwr Codi
Arian: **Diwydrwydd
dyladwy a chodi arian**

5. Codi arian sy'n cynnwys plant a phobl mewn amgylchiadau bregus

Mae'n bwysig cymryd gofal arbennig wrth gynnwys plant mewn codi arian, boed fel codwyr arian, gwirfoddolwyr neu roddwyr.

Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar gyfyngiadau isafswm oedran sy'n berthnasol wrth godi arian, a safonau i ddiogelu plant a'u data personol. Mae yna rai gweithgareddau na all plant a phobl ifanc eu cyflawni. Mae'r cyfyngiad oedran yn dibynnu ar y gweithgaredd a ble mae'n cael ei gynnal. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys:

- casgliadau stryd a chasgliadau o ddrws i ddrws;
- loteriau neu rafflau; a
- gwerthu neu drin alcohol.

Mae yna rai gweithgareddau y gall pobl ifanc gytuno a pheidio â chytuno arnynt wrth gynnal ymgymryd â gweithgaredd codi arian. Rhaid i chi gymryd gofal ychwanegol wrth brosesu data personol plant ac ystyried deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ar draws y rhanbarthau lle rydych chi'n gweithio i wneud yn siŵr eich bod yn gweithio'n gyfreithiol ac yn foesegol.

Diffinnir plentyn fel rhywun o dan 18 oed yn **Neddf Plant 1989** (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban) a **Gorchymyn Plant (Gogledd Iwerddon) 1995** (yng Ngogledd Iwerddon). Mae CCEW hefyd yn defnyddio'r diffiniad hwn yn eu canllawiau, **Diogelu a gwarchod pobl ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr**.

5.1 Cyfrifoldebau wrth gynnwys plant mewn gweithgareddau codi arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

5.1.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gweithgareddau codi arian yn briodol i oedran.

Er enghraifft, rhaid i chi gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr nad yw plant dan 16 oed yn cael cyfrifoldeb cyffredinol am drin neu gyfri arian.

Cyngor ar gynnwys plant wrth godi arian

Y Comisiwn Gamblo:
Sut i redeg loteri neu godi arian

GOV.UK: **Alcohol a phobl ifanc**

CCEW: **Alcohol mewn cyfarfodydd a digwyddiadau elusennol**



Gofynion cyfreithiol ar gyfer dilyn terfynau oedran ar gyfer casgliadau

Yng Nghymru a Lloegr: Ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ, rhaid peidio â chaniatáu i unrhyw un o dan 16 oed gasglu arian. Mae hyn yn unol â Rheoliadau Casgliadau Tŷ i Dŷ 1947, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Casgliadau Tŷ i Dŷ 1963.

Ar gyfer casgliadau stryd:

- os yw'r awdurdod trwyddedu wedi mabwysiadu'r rheoliadau enghreifftiol, rhaid i chi beidio â chaniatáu i unrhyw un dan 16 oed gynnal casgliadau stryd;
- os nad yw'r awdurdod trwyddedu wedi mabwysiadu'r rheoliadau enghreifftiol, rhaid i chi gadw at unrhyw gyfyngiadau oedran yn rheoliadau'r awdurdod trwyddedu; ac
- yn Llundain, rhaid i chi beidio â chaniatáu i unrhyw un dan 16 oed gynnal casgliadau stryd (oni bai eu bod yn gwneud hynny fel rhan o orymdaith, ac yn yr achos hwnnw mae'n rhaid iddynt fod o leiaf 14 oed a rhaid i chi gael caniatâd arbennig gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol).

Yn yr Alban: O dan Rheoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (Yr Alban) 1984, rydych wedi'ch gwahardd yn gyfreithiol rhag caniatáu i blant dan 14 oed gymryd rhan mewn casgliad stryd os yw'n gymwys fel casgliad elusennol cyhoeddus. Hefyd, rydych wedi'ch gwahardd yn gyfreithiol rhag caniatáu i blant dan 16 oed gynnal casgliadau o ddrws i ddrws.

Yng Ngogledd Iwerddon: O dan Ddeddf Casgliadau Elusennol Tŷ i Dŷ (Gogledd Iwerddon) 1952 a Rheoliadau Casgliadau mewn Strydoedd a Mannau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1963, rydych wedi'ch gwahardd yn gyfreithiol rhag caniatáu i unrhyw un o dan 16 oed gynnal casgliadau o ddrws i ddrws neu stryd. Gall casglwyr 12 oed a hŷn gynnal casgliadau o ddrws i ddrws ar gyfer sefydliadau ieuencid y mae'r Adran Cymunedau wedi'u cymeradwyo o dan orchymyn eithriad.

Rhagor o wybodaeth

Drwyddedu a'r gyfraith, gweler adran 7 Codi arian cyhoeddus.

5.1.2 Dim ond os oes gennych gymeradwyaeth aelod perthnasol o staff y dylech gysylltu â phlant ar safle ysgol.

Yr aelod staff perthnasol fel arfer fydd y pennaeth, neu aelod o staff wedi ei ddewis gan y pennaeth.

5.1.3 Rhaid i chi gael caniatâd priodol cyn tynnu neu gyhoeddi lluniau o blant.

Ar gyfer plant dan 13 oed, bydd angen caniatâd gan riant, gwarcheidwad neu oedolyn cyfrifol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn darparu canllawiau ar y pwnc hwn.

- ICO: [Tynnu lluniau mewn ysgolion](#)
- ICO: [Tynnu ffotograffau: cyngor diogelu data i ysgolion](#)

5.2 Diogelu a gweithio gyda phobl mewn amgylchiadau bregus



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

5.2.1 Rhaid i chi gael gweithdrefnau clir yn eu lle i sicrhau bod codwyr arian yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau diogelu tuag atynt eu hunain, rhoddwyr posibl a'i gilydd.

Dylai gweithdrefnau amlinellu sut mae codwyr arian yn gweithio gyda phawb, gan gynnwys:

- trefnwyr gweithgaredd;
- y plant sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd;
- rhieni, gwarcheidwaid neu oedolion cyfrifol y plant hynny; a
- phob rhoddwr posibl, gan gynnwys y rhai mewn amgylchiadau bregus.

5.2.2 Rhaid i chi beidio â manteisio ar ymddiriedaeth, diffyg gwybodaeth, angen ymddangosiadol am ofal a chefnogaeth, neu amgylchiadau bregus rhoddwr presennol neu ddarpar roddwr.

Cyngor y sector ar ddiogelu a chodi arian

Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol (NCVO):

[Pobl sydd angen eu diogelu wrth godi arian](#)

[Diogelu ar gyfer rheolwyr codi arian](#)

**Cyngor y sector ar
drin rhoddwyr yn deg**

The Chartered Institute
of Fundraising (CloF):
[drin rhoddwyr yn deg](#)

5.2.3 Rhaid i chi roi ystyriaeth briodol i anghenion rhoddwyr presennol neu ddarpar roddwyr a allai fod mewn amgylchiadau bregus neu sydd angen gofal a chefnogaeth ychwanegol i wneud penderfyniad gwybodus. Mae hyn yn cynnwys:

- peidio â derbyn rhodd os ydych chi'n gwybod, neu os oes gennych reswm i gredu, na all person wneud penderfyniad gwybodus i roi; a
- dychwelyd rhodd os byddwch chi'n darganfod na allai'r rhoddwr wneud penderfyniad gwybodus ar adeg y rhodd.

Nid oes disgwyl i chi asesu gallu pob rhoddwr presennol neu ddarpar roddwr i wneud penderfyniad gwybodus. Fodd bynnag, dylai codwyr arian fod yn effro i arwyddion nad oes gan rywun y gallu i wneud penderfyniad gwybodus a'u cefnogi'n briodol.

5.2.4 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i osgoi gofyn am roddion rheolaidd (er enghraifft, trwy ddebyd uniongyrchol) gan unrhyw un dan 18 oed.

6. Partneriaethau codi arian

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am: ba sefydliadau elusennol sydd angen eu hystyried wrth ymrwmo i bartneriaethau â chodwyr arian trydydd parti, pa gytundebau gyda chodwyr arian trydydd parti ddylid eu cynnwys, pa fath o fonitro ddylai sefydliadau elusennol ei wneud mewn perthynas â chodi arian trydydd parti, beth mae'n rhaid i rai codwyr arian trydydd parti ei ddweud wrth roddwyr wrth godi arian ar ran sefydliad elusennol.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol

Mae codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol yn fathau penodol o godwyr arian trydydd parti. Mae'r hyn sy'n gwneud person neu sefydliad yn godwr arian proffesiynol neu'n gyfranogwr masnachol wedi'i nodi yn y gyfraith. Mae'r gyfraith hefyd yn gosod rhwymedigaethau penodol ar yr hyn y mae'n rhaid i sefydliadau elusennol ei wneud os ydynt yn gweithio gyda chodwyr arian proffesiynol neu gyfranogwyr masnachol a rhwymedigaethau ar yr hyn y mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol ei wneud a'i ddweud.

Yng Nghymru a Lloegr: mae codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol yn cael eu diffinio gan adran 58 o Ddeddf Elusennau 1992. Mae'r gofynion cyfreithiol y maent yn ddarostyngedig iddynt wedi'u nodi yn rhan II o Ddeddf Elusennau 1992 a Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994.

Yn yr Alban: mae codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol yn cael eu diffinio gan adran 79 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005. Mae'r gofynion cyfreithiol y maent yn ddarostyngedig iddynt wedi'u nodi yn rhan 2 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005 a Rheoliadau Elusennau a Chodi Arian Cymwynasgar (Yr Alban) 2009.

Cyngor ar weithio gyda chodwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol

Rheioleiddiwr
Codi Arian

Canllawiau i sefydliadau elusennol sy'n gweithio gyda chodwyr arian proffesiynol

Canllawiau i sefydliadau elusennol sy'n gweithio gyda chyfranogwyr masnachol



Yng Ngogledd Iwerddon: ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chodwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol, ond gall sefydliadau elusennol codi arian yng Ngogledd Iwerddon benderfynu dilyn y gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol yng Nghymru a Lloegr neu'r Alban fel arfer da.

6.1 Diwydrwydd dyladwy

i Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol.

6.1.1 Rhaid i chi gynnal gwiriadau priodol ar godwr arian trydydd parti cyn ymrwymo i gytundeb gyda nhw. Mae hyn er mwyn gwneud yn siŵr eich bod yn weddol fodlon eu bod yn gallu gwneud yr hyn rydych chi'n disgwyl iddynt ei wneud a bod y berthynas yn annhebygol o niweidio eich enw da.

6.2 Contractau a chytundebau

i Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol.

6.2.1 Rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig priodol gydag unrhyw godwyr arian trydydd parti rydych chi'n gweithio gyda nhw (oni bai eu bod yn wirfoddolwr, ac yn yr achos hwnnw efallai y byddwch chi'n penderfynu peidio â rhoi cytundeb ysgrifenedig yn ei le).

6.2.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y cytundeb hwn yn darparu amddiffyniad a hawliau digonol i'ch sefydliad elusennol, gan ystyried y gweithgaredd i'w gynnal o dan y cytundeb. Yn benodol, mae'n rhaid i chi allu dod â'r cytundeb i ben mewn ffordd sy'n galluogi i chi amddiffyn enw da eich sefydliad elusennol, os bydd hyn yn angenrheidiol.

Canllawiau ar ddiwydrwydd dyladwy

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (CCEW): Diwydrwydd dyladwy, monitro a gwirio'r defnydd terfynol o gronfeydd elusennol

Rheoleiddiwr Codi Arian: Diwydrwydd Dyladwy

6.2.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y cytundeb hwn yn cynnwys telerau priodol ynglŷn â:

- gweithgareddau sydd i'w cyflawni gan y codwr arian trydydd parti (ac os yw'n berthnasol, gennych chi);
- unrhyw amserlenni sy'n berthnasol;
- os bydd y codwr arian trydydd parti yn cael ei dalu gennych chi, sut y byddwch chi'n cyfrifo'r taliad;
- os bydd deunyddiau codi arian yn cael eu datblygu neu eu rhannu, pa hawlfraint sydd gennych dros y deunyddiau hyn;
- trin gwybodaeth gyfrinachol;
- sut y mae disgwyl i'r codwr arian trydydd parti ymddwyn, gan gynnwys cadw at y cod hwn;
- gweithdrefnau cwyno ac ymgysylltu â'r Rheoleiddiwr Codi Arian; ac
- os caniateir i'r codwr arian trydydd parti isgontractio gweithgareddau codi arian i eraill ac, os felly, pa safonau sydd yn eu lle ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u isgontractio.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer cytundebau ysgrifenedig

Os yw'r codwr arian trydydd parti yn dod o fewn y diffiniad cyfreithiol o 'godwr arian proffesiynol' neu 'cyfranogwr masnachol', mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt gael cytundeb ysgrifenedig gyda chi. Rhaid i'r cytundebau hyn fod yn eu lle cyn i godwr arian proffesiynol ddechrau codi arian ar eich rhan neu cyn i gyfranogwr masnachol ddechrau hyrwyddiad sy'n gwneud sylwadau y bydd cyfraniadau'n cael eu rhoi i chi.

Mae gofynion cyfreithiol yn yr Alban weithiau'n wahanol i Gymru a Lloegr. Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl gytundebau ysgrifenedig yn bodloni gofynion cyfreithiol y wlad lle bydd y codi arian yn cael ei gynnal.

O dan **rheoliadau 2 i 3 o Reoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994** a **rheoliad 2 o Reoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009**, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob cytundeb gyda chodwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol gynnwys y canlynol.



- Enwau a chyfeiriadau'r sefydliad elusennol a'r codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol.
- Dyddiad llofnodi'r cytundeb, pa mor hir y bydd yn para ac unrhyw delerau sy'n ymwneud â diwygio'r cytundeb neu ddod ag ef i ben yn gynnar.
- Datganiad o brif nodau'r cytundeb a'r dulliau i'w defnyddio i gyflawni'r nodau hynny (ac, ar gyfer cytundebau gyda chyfranogwyr masnachol, disgrifiad o'r math o gyfraniad y bydd y cyfranogwr masnachol yn ei wneud i chi a'r amgylchiadau lle bydd y cyfraniad hwn yn cael ei wneud).
- Ar gyfer cytundebau gyda chodwyr arian proffesiynol, faint y bydd y codwr arian proffesiynol yn ei dderbyn fel taliad neu ar gyfer treuliau a sut y bydd hyn yn cael ei gyfrifo.
- Ar gyfer cytundebau gyda chyfranogwyr masnachol, faint y byddwch chi'n ei dderbyn gan y cyfranogwr masnachol a sut y bydd hyn yn cael ei gyfrifo (fel swm sefydlog neu mewn termau canrannol).
- Os oes mwy nag un sefydliad elusennol yn gysylltiedig, manylion sut y bydd y rhoddion yn cael eu rhannu rhyngoch.

Gofynion cyfreithiol ychwanegol ar gyfer cytundebau ysgrifenedig yng Nghymru a Lloegr

O dan **adran 59 o Ddeddf Elusennau 1992**, yng Nghymru a Lloegr mae'n ofynnol cyfreithiol i chi roi gweithdrefnau adolygu yn eich cytundebau ysgrifenedig. Mae'n ofynnol i chi hefyd gynnwys y manylion canlynol.

- Unrhyw reoliad gwirfoddol y mae'r codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol wedi cytuno i gadw ato.
- Sut y bydd y codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol yn amddiffyn pobl fregus a'r cyhoedd ehangach rhag ymyrraeth afresymol ar breifatrwydd person, dulliau afresymol parhaus neu bwysau diangen i roi.
- Sut y byddwch chi'n monitro'r codwr arian proffesiynol neu'r cyfranogwr masnachol i wneud yn siŵr eu bod yn cadw at y cytundeb.

Cyngor y sector ar fonitro

Sefydliad Codi Arian
Siartredig (CloF):
Partneriaethau
Llwyddiannus ar gyfer
Codi Arian Cynaliadwy

Cyngor ar fonitro

Rheoleiddiwr
Codi Arian:
Monitro
partneriaethau
codi arian
CCEW: Elusennau
a Rheoli Risg

6.3 Monitro bod codwyr arian yn cadw at y cod

 Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol.

6.3.1 Rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i wneud yn siŵr bod unrhyw godwyr arian trydydd parti rydych chi'n gweithio gyda nhw yn cadw at y cod.

6.3.2 Rhaid i chi wneud pob ymdrech resymol i fonitro a yw codwyr arian trydydd parti yn cadw at y cytundeb sydd gennych gyda nhw.

6.4 Datganiadau deisyfu ar gyfer codwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol

 Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol.

Mae datganiadau erfyniad yn ddatganiadau y mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol eu rhoi wrth godi arian ar gyfer sefydliad elusennol. Maen nhw'n esbonio sut y bydd y sefydliad elusennol yn elwa o'r codi arian.

Rhaid i rai gweithwyr, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig hefyd roi datganiadau erfyniad wrth godi arian ar gyfer sefydliad elusennol. Mae adran 2.5 Datganiadau erfyniad ar gyfer gweithwyr cyflogedig, swyddogion ac ymddiriedolwyr sefydliadau elusennol a chwmnïau cysylltiedig yn cynnwys gwybodaeth am y datganiadau erfyniad hyn.

6.4.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod datganiadau erfyniad yn glir, yn gywir ac yn gyfredol.

6.4.2 Rhaid i chi wneud datganiad erfyniad cyn:

- bod rhoddwr yn rhoi unrhyw arian (neu os ydych chi'n gyfranogwr masnachol, cyn i roddwr brynu cynnyrch neu wasanaeth); neu
- eich bod yn gofyn am unrhyw fanylion ariannol sy'n ymwneud â'r trafodiad.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer datganiadau erfyniad gan godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol

O dan adran 60 o Ddeddf Elusennau 1992, Rheoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994 a rheoliad 3 o Reoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud datganiad erfyniad wrth ofyn am arian neu eiddo arall neu'n cynrychioli mewn perthynas â chynnyrch neu wasanaeth y bydd cyfraniad yn cael ei roi i sefydliad elusennol ar ei gyfer.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob datganiad erfyniad gynnwys:

- enw'r sefydliad neu'r sefydliadau elusennol; a
- os oes mwy nag un sefydliad elusennol, manylion sut y bydd arian yn cael ei rannu rhyngddynt.

Mae hi hefyd yn ofynnol yn gyfreithiol i ddatganiadau erfyniad ar gyfer codwyr arian proffesiynol gynnwys:

- sut y bydd eu taliad yn cael ei gyfrifo; a
- faint y byddant yn cael eu talu am yr apêl (neu, os nad ydynt yn gwybod y swm gwirioneddol, amcangyfrif o'r swm wedi'i gyfrifo mor gywir â phosibl).

Dylai cyflogeion codwr arian proffesiynol ddarparu datganiad am y taliad y bydd eu cyflogwr yn ei dderbyn mewn cysylltiad â'r apêl, nid y taliad y byddant yn ei dderbyn yn bersonol gan eu cyflogwr (y codwr arian proffesiynol).

Mae hi hefyd yn ofynnol yn gyfreithiol i ddatganiadau cyfreithiol ar gyfer cyfranogwyr masnachol gynnwys:

- y swm (amcangyfrif os oes angen) a roddir i, neu a ddefnyddir er budd y sefydliad elusennol, yn seiliedig ar:
 - y swm a dalwyd am y nwyddau neu'r gwasanaethau;
 - swm unrhyw enillion eraill o'r hyrwyddiad;
 - y swm a godwyd o roddion a wnaed mewn cysylltiad â gwerthu neu gyflenwi nwyddau a gwasanaethau.



Mae yna hefyd ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol pan fydd codwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol yn gofyn am rodd ar lafar heb i'r rhoddwr posibl fod yn bresennol (er enghraifft, wrth godi arian dros y ffôn neu yn ystod rhaglen radio neu deledu).

Gofynion cyfreithiol ychwanegol ar gyfer datganiadau erfyniad yn yr Alban: O dan Rheoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009, yn yr Alban, mae'r safonau ar ddatganiadau erfyniad hefyd yn berthnasol i godwyr arian cymwynasgar (ac eithrio gwirfoddolwyr) sy'n ymgymryd â chodi arian cymwynasgar. Fodd bynnag, yn wahanol i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol, nid oes angen i godwyr arian cymwynasgar ddweud eu bod yn cael eu talu os ydynt yn rhoi'r datganiad erfyniad yn ysgrifenedig. Mae angen i godwyr arian cymwynasgar ddweud eu bod yn cael eu talu dim ond os ydynt yn rhoi'r datganiad erfyniad ar lafar.

Yn yr Alban, os gwneir datganiad erfyniad ar lafar gan godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol (ond nid codwr arian cymwynasgar), mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt ddweud wrth y darpar roddwr y gallant ofyn am y wybodaeth hon yn ysgrifenedig, waeth beth yw swm y rhodd ac a yw'r rhoddwr posibl yn bresennol ar yr adeg y caiff ei wneud.

Mae gofyn cyfreithiol hefyd i ddatganiadau erfyniad ar gyfer cyfranogwyr masnachol sy'n gweithio gyda sefydliadau elusennol sydd wedi'u cofrestru yn yr Alban amlinellu a fydd y cyfranogwr masnachol yn derbyn unrhyw daliad gan y sefydliad elusennol fel rhan o'r codi arian hwn.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer datganiadau erfyniad lle mae'r codi arian at ddibenion elusennol, dyngarol neu gymwynasgar, yn hytrach nag er budd sefydliad elusennol

Yng Nghymru a Lloegr: O dan adran 60 o Ddeddf Elusennau 1992 a rheoliad 7 o Reoliadau Sefydliadau Elusennol (Codi Arian) 1994, mae'n ofynnol yn gyfreithiol hefyd i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol roi datganiadau erfyniad os ydynt yn codi arian at ddibenion elusennol, dyngarol neu gymwynasgar.

Yn yr Alban: O dan Rheoliadau Codi Arian Elusennau a Chymwynasgar (Yr Alban) 2009, pan fydd codi arian at ddibenion elusennol, cymwynasgar neu ddyngarol cyffredinol, rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol roi arwydd o'r ffaith hon a sut y bydd yr arian yn cael ei rannu.


Rhagor o wybodaeth:

Swyddfa'r Cabinet: Canllawiau ar Ran 2 o Ddeddf Elusennau 1992

Rheoleiddiwr Elusennau yr Alban: Gwybodaeth i'w darparu gan godwyr arian

Rhan 3: Safonau sy'n berthnasol i ddulliau codi arian penodol

Mae'r rhan hon yn cwmpasu'r safonau sy'n berthnasol i wahanol ddulliau codi arian. Dylech adnabod y dulliau rydych chi'n eu defnyddio i godi arian a bodloni'r safonau yn yr adrannau perthnasol. Dylech ddarllen y safonau hyn ochr yn ochr â'r safonau yn rhannau 1 a 2 o'r cod.



7. Codi arian cyhoeddus

Mae'r adran hon yn ymdrin â chasgliadau arian neu eiddo arall (gan gynnwys nwyddau ac anrhegion rheolaidd) ar gyfer sefydliadau elusennol, p'un a yw'r rhain yn cael eu cynnal ar y stryd, o ddrws i ddrws neu ar safleoedd preifat. Mae'n cynnwys gweithdrefnau a safonau casglu diogel i wneud yn siŵr eich bod yn parchu pobl a lleoedd.

Mae'r gyfraith ar gasglu arian neu eiddo arall yn amrywio, yn dibynnu ar sut a ble mae'r casgliad yn digwydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, ar gyfer casgliadau ar dir cyhoeddus bydd angen trwydded neu ganiatâd arnoch i gasglu gan yr awdurdod trwyddedu perthnasol (neu yng Ngogledd Iwerddon, Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon). Ar dir preifat, bydd angen caniatâd arnoch gan y person sy'n gyfrifol am y safle.

7.1 Ymddygiad wrth gasglu arian neu eiddo arall



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

7.1.1 Wrth godi arian rhaid i chi ymddwyn mewn ffordd sy'n adlewyrchu'n dda ar y sefydliad elusennol a chodi arian yn gyffredinol.

Er enghraifft, rhaid i chi beidio â gweithredu mewn ffordd:

- a allai'n rhesymol gynhyrfu neu achosi pryder i ddarpar roddwyr;
- sy'n anonest neu'n ystrywgar, neu'n ceisio gwneud i ddarpar roddwyr deimlo'n euog; neu
- a allai niweidio enw da'r sefydliad elusennol neu godi arian yn gyffredinol, gan gynnwys:
 - defnyddio iaith amhriodol neu ymddwyn mewn ffordd ddi-chwaeth neu ymosodol;
 - ysmygu, fapio, yfed alcohol ac yn y blaen; a
 - defnyddio eich sefyllfa er budd personol.

7.1.2 Rhaid i chi fod yn glir ac yn onest am eich bwriad i godi arian wrth fynd at roddwyr posibl.

Er enghraifft, os ydych chi'n codi arian rhaid i chi beidio â dweud nad yw sgwrs yn ymwneud â chodi arian, neu arwain y person i gredu eich bod yn gofyn am rodd unwaith os ydych chi'n gofyn am roddion rheolaidd.

7.2 Casgliadau stryd a safleoedd preifat



Os yw unrhyw un o'r safonau yn yr adran hon yn gwrth-ddweud neu'n gwrthdaro ag unrhyw amodau sydd wedi'u cynnwys mewn trwydded wedi ei roi gan awdurdod trwyddedu neu mewn cytundeb sydd gennych gyda pherchennog neu reolwr safle preifat, bydd y drwydded neu'r cytundeb safle yn berthnasol.

Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

7.2.1 Rhaid i chi osgoi mynd at y cyhoedd ar adegau anaddas. Er enghraifft, pan fyddant:

- mewn ciw neu'n eistedd i lawr, oni bai eu bod wrth eich stondin hyrwyddo neu'n aros i gymryd rhan yn eich gweithgaredd codi arian; neu
- yn amlwg yn gweithio neu'n cyflawni dyletswyddau swyddogol.



Y rheol 'tri cham':

Os ydych wedi mynd at aelod o'r cyhoedd, rhaid i chi:

- beidio â chymryd mwy na thri cham ochr yn ochr â nhw neu eu dilyn; ac
- os nad ydyn nhw wedi dod i stop o fewn y tri cham sy'n cael ei ganiatáu, rhaid i chi ddod â'ch ymgais i siarad â nhw i ben.

Os ydych wedi dechrau sgwrs gyda pherson yn llwyddiannus, gallwch gymryd mwy na thri cham i'w hebrwng i stondin hyrwyddo neu i ran wahanol o stondin hyrwyddo.

7.2.2 Rhaid i chi drin y lleoliadau lle rydych chi'n codi arian gyda pharch a rhaid i chi beidio â gadael bagiau neu eiddo arall heb oruchwyliaeth, nac achosi rhwystr neu niwsans i'r cyhoedd neu fusnesau eraill.

Ar gyfer casgliadau stryd a chasgliadau ar safleoedd a reolir gan awdurdod lleol, mae hyn yn cynnwys peidio â lleoli eich hun o fewn tri metr i:

- fynedfa siop;
- croesfan i gerddwyr;
- peiriant arian parod;
- mynedfa gorsaf;
- stondin marchnad; neu
- fasnachwr, gwerthwr neu fysger stryd.

Os oes gennych stondin ar gyfer eich casgliad, rhaid i chi aros o fewn golwg iddo.

Ar gyfer casgliadau safle preifat sydd wedi'u trefnu gyda manwerthwr, rhaid i chi weithio o fewn un metr i'r stondin hyrwyddo (neu gyfwerth). Os yw'r casgliad yn digwydd mewn blaen siop, rhaid i'r stondin hyrwyddo fod ddim mwy na metr i ffwrdd o flaen y siop.

7.2.2 Rhaid i chi ymgymryd â chodi arian ar stryd ar adegau priodol. Y rhain yw:

- rhwng 9am a 7pm, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn; a
- rhwng 10am a 7pm ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

Os nodir amseroedd gwahanol mewn cytundeb rheoli safle y Sefydliad Siartredig Codi Arian (CioF), rhaid i chi gadw at yr amseroedd yn y cytundeb.

Cyngor y sector
ar alw oer

CloF: Parthau a sticeri
dim galw digroeso

7.3 Codi arian o ddrws i ddrws



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

7.3.1 Rhaid i chi beidio â chynnal casgliadau mewn eiddo lle mae trigolion wedi ei gwneud yn glir nad ydyn nhw am gael eu tarfu. Mae hyn yn cynnwys:

- eiddo gydag arwydd yn dweud 'dim galwyr digroeso' neu debyg; a
- grwpiau o eiddo mewn ardal lle na chaniateir galwadau digroeso (parthau dim galwadau digroeso).

7.3.2 Rhaid i chi fynd at eiddo a phreswylwyr yn barchus. Mae hyn yn cynnwys:

- cymryd gofal ychwanegol wrth ymweld ag eiddo ar ôl iddi dywyllu neu mewn lleoliadau ynysig;
- peidio â mynd at eiddo mewn grwpiau o fwy na dau godwr arian ar y tro;
- dim ond curo ar y drws ffrynt neu'r brif fynedfa oni bai bod preswlydd yn gofyn i chi guro yn rhywle arall;
- peidio â gofyn i fynd i mewn i eiddo a dim ond mynd i mewn os oes caniatâd clir i chi gan breswlydd;
- peidio â defnyddio caniatâd gan un preswlydd i fynd i mewn i adeilad sy'n cynnwys eiddo ar wahân (fel bloc o fflatiau) fel caniatâd i fynd at eiddo eraill yn yr adeilad; a
- pheidio â stopio trigolion rhag cau eu drws (er enghraifft, drwy roi eich troed yn y drws).

7.3.3 Rhaid i chi ymgymryd â chasgliadau o ddrws i ddrws ar adegau priodol. Oni bai bod eich trwydded neu orchymyn eithrio yn dweud fel arall, y rhain yw

- rhwng 9am a 9pm, dydd Llun i ddydd Sadwrn; a
- rhwng 10am a 9pm ar ddydd Sul a gwyliau cyhoeddus.

Os oes angen i chi wneud ail ymweliad ag eiddo ar gyfer eich casgliad, dim ond os oes gennych ganiatâd gan y preswlydd y gallwch wneud hynny y tu allan i'r amseroedd uchod.

7.4 Trwyddedau, caniatâd ac adnabod codwyr arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

7.4.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych ganiatâd priodol cyn dechrau eich gweithgareddau codi arian a bod eich gweithgareddau yn bodloni gofynion y drwydded, yr hawlen, y gorchymyn eithrio neu'r caniatâd sy'n berthnasol iddynt.



Gofynion trwyddedau a hawlenni

Mae gofynion trwyddedau a hawlenni yn amrywio ond, yn gyffredinol, bydd disgwyl i chi:

- wneud cais i'r awdurdod perthnasol mewn da bryd cyn i'r casgliad ddigwydd;
- dim ond codi arian ar y dyddiadau, ar yr amseroedd ac yn yr ardaloedd a ganiateir;
- cynnal diwydrwydd dyladwy priodol ar godwyr arian;
- sicrhau bod codwyr arian yn bodloni gofynion isafswm oedran; a
- darparu'r deunyddiau swyddogol angenrheidiol ac awdurdodiadau priodol i godwyr arian.

Efallai y bydd rhai trwyddedau a hawlenni hefyd yn gofyn i chi ddarparu enwau a manylion codwyr arian unigol mewn ardal. Bydd rhai sefydliadau elusennol yn darparu tystysgrif awdurdod i wirfoddolwyr neu gasglwyr i ddangos eu bod yn godwyr arian cyfreithlon.

Canllaw ar orchmynion eithriad

Rheoleiddiwr Codi Arian: Gorchmynion eithrio

7.4.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod codwyr arian yn addas ar gyfer y gwaith maen nhw'n ei wneud. Mae hyn yn cynnwys:

- cynnal diwydrwydd dyladwy priodol; a
- sicrhau bod codwyr arian o leiaf yr isafswm oedran sy'n ofynnol i gynnal y gweithgaredd.

7.4.3 Rhaid i chi sicrhau bod gan godwyr arian y deunyddiau swyddogol priodol ac unrhyw awdurdodiad ffurfiol sydd ei angen i gynnal eu codi arian. Rhaid i chi hefyd gadw cofnod o'r deunyddiau codi arian rydych chi'n eu cyhoeddi a phryd maent yn cael eu dychwelyd.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer deunyddiau casglu yn yr Alban

Yn yr Alban, o dan rheoliad 4 o Reoliadau Casgliadau Elusennol Cyhoeddus (Yr Alban) 1984, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i drefnwyr casgliadau gofnodi:

- enw a chyfeiriad pob casglwr, a nifer yr amlenni casglu a roddwyd iddynt; neu
- y rhif adnabod sydd wedi'i farcio ar flwch casglu pob casglwr.

Adnabod codwyr arian

7.4.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod modd adnabod yn glir codwyr arian a cherbydau a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau codi arian fel rhai sy'n cynrychioli eich sefydliad elusennol.

Rhaid gallu adnabod codwyr arian o ddrws i ddrws, safle preifat a stryd gan ddillad sy'n dangos brandio'r sefydliad elusennol yn glir. Nid yw hyn yn berthnasol i wirfoddolwyr er budd, neu godwyr arian sy'n defnyddio stondin y gellir ei adnabod gan frandio'r sefydliad elusennol.

7.4.5 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gan eich codwyr arian gerdyn adnabod priodol ar gyfer y gweithgaredd maen nhw'n ei wneud.



Bathodynnau adnabod

O dan y cod, nid oes angen bathodynnau adnabod ar godwyr arian ar gyfer y gweithgareddau canlynol, ond dylai bod posib adnabod codwyr arian yn glir.

- Dosbarthu a chasglu bagiau elusennol
- Casgliadau arian parod gan godwyr arian gwirfoddol
- Casgliadau arian parod ar wefannau preifat (oni bai bod perchennog y safle yn dweud bod rhaid i godwyr arian wisgo bathodynnau adnabod)

Os oes angen bathodynnau adnabod, rhaid iddynt:

- fod o leiaf maint cerdyn credyd;
- gael eu harddangos mewn man lle gall darpar roddwyr eu gweld yn glir (fel arfer ar ran flaen uchaf corff y codwr arian);
- heb gael eu newid ; a
- bod yn hygyrch i bobl ag anawsterau golwg (er enghraifft, gallai'r wybodaeth ar y bathodyn adnabod fod ar gael mewn print bras).

Rhaid i bob bathodyn adnabod gynnwys:

- enw y codwr arian;
- ffotograff diweddar o'r codwr arian;
- enw, a manylion cyswllt ar gyfer y sefydliad elusennol y mae'r codwr arian yn casglu ar ei gyfer; a
- llofnod neu awdurdodiad arall (fel stamp cwmni) gan y sefydliad elusennol neu'r codwr arian proffesiynol sy'n cyflogi'r codwr arian.

Rhaid i fathodynnau adnabod ar gyfer codwyr arian proffesiynol hefyd gynnwys enw a manylion cyswllt y trydydd parti sy'n cyflogi'r codwr arian.*

*Bydd yr adran hon yn destun diwygiad bach yn y fersiwn derfynol o'r cod (Tachwedd 2025). [Darllenwch ein blog am ragor o fanylion a'n heglurhad o'r newidiadau.](#)

7.5 Rhoi'n gyfleus a chasgliadau heb staff



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

Mae rhoi'n gyfleus a chasgliadau heb staff yn ffyrdd hawdd i bobl roi arian neu eiddo arall ac yn aml nid oes angen i godwr arian fod yn bresennol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod gan ddarpar roddwyr fynediad at yr holl wybodaeth sydd ei hangen i wneud rhodd wybodus.

Mae dulliau casglu ar gyfer rhoi'n gyfleus yn cynnwys:

- 'Tap to Donate' a dulliau casglu awtomataidd eraill, megis tecstio rhif pwrpasol neu ddefnyddio cod QR; ac
- ychwanegu rhoddion at drafodion talu, er enghraifft drwy dalgrynnu bil mewn siop neu fwyty.

Mae dulliau casglu heb staff yn cynnwys:

- blychau casglu statig;
- banciau rhoddion dillad a nwyddau; a
- bagiau elusennol sy'n cael eu dosbarthu o ddrws i ddrws.

Mae ceisiadau am roddion drwy farchnata uniongyrchol yn cael eu cynnwys yn **adran 8 Cyfathrebiadau a hysbysebion codi arian.**



Gofynion cyfreithiol ar gyfer blychau casglu statig

Mae **Rhan II o Ddeddf Elusennau 1992** a **Rhan 2 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005** yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol sy'n berthnasol pan fydd sefydliad arall yn derbyn taliad neu fudd arall am reoli blychau casglu statig ar eich rhan.

Safonau cyffredinol ar gyfer rhoi'n gyfleus a chasgliadau heb staff

7.5.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr, cyn gwneud rhodd, y gall rhoddwyr weld gwybodaeth glir, gywir a chyfredol am y casgliad. Mae hyn yn cynnwys:

- enw'r sefydliad elusennol sy'n derbyn y rhodd; a
- gwybodaeth gofrestru'r sefydliad elusennol (rhif elusen neu rif cwmni) a'u manylion cyswllt.

Os yw casgliad yn cael ei drefnu gan gasglwr trydydd parti, rhaid i'r wybodaeth hefyd gynnwys:

- manylion sut y bydd unrhyw bartneriaid codi arian yn cael eu talu fel rhan o'r casgliad; ac
- enw a manylion cyswllt y casglwr, os yw hyn yn wahanol i'r sefydliad elusennol.

7.5.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod rhoddwyr yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth ganlynol yn hawdd.

- Manylion unrhyw ffioedd prosesu sy'n gysylltiedig â'r rhodd*
- Manylion am unrhyw ddiben eilaidd y gellir defnyddio rhoddion ar eu cyfer

Os yw'r lle yn gyfyngedig ac nad yw'n ymarferol cynnwys y wybodaeth hon yn lleoliad y casgliad, dylech ddarparu dolen fer i dudalen we sy'n cynnwys y manylion hyn.

*Bydd yr adran hon yn destun diwygiad bach yn y fersiwn derfynol o'r cod (Tachwedd 2025). [Darllenwch ein blog am ragor o fanylion a'n heglurhad o'r newidiadau.](#)

Blychau casglu statig a banciau rhoddion dillad a nwyddau

7.5.3 Rhaid i chi gael cytundeb ysgrifenedig gyda rheolwr y safle neu berchennog y lleoliad lle mae'r casgliad yn digwydd. Rhaid i'r cytundeb gynnwys:

- manylion pwy sy'n gyfrifol am gasglu a phrosesu rhoddion;
- manylion sut a phryd y bydd casgliadau yn cael eu gwneud;
- gwybodaeth am sut y gall y casglwr neu'r rheolwr neu berchennog y safle ddod â'r trefniant i ben; a
- manylion am fod rhaid i'r rheolwr neu'r perchennog adrodd am unrhyw ddwyn rhoddion neu ddifrod i'r blwch casglu neu'r banc rhoddion.

Rhoddion drwy neges destun

7.5.4 Rhaid i chi ddefnyddio codau byr elusen wrth ofyn am roddion drwy neges destun.

Ofcom yw'r prif reoleiddiwr ar gyfer cynnwys, nwyddau a gwasanaethau sy'n cael eu codi ar fil ffôn ac mae'n darparu canllawiau ar y pwnc hwn.

Talgrynnu a rhoddion awtomatig

7.5.5 Os yw sefydliad elusennol yn ymwybodol bod sefydliad yn cynnig ffordd o ychwanegu rhodd at drafodiad talu yn awtomatig (megis trwy dalgrynnu bil mewn siop neu fwyty), rhaid iddynt gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y sefydliad yn cael caniatâd y rhoddwr (er enghraifft, trwy ofyn iddynt dicio blwch optio i mewn).

Os yw rhoddwyr wedi cytuno i wneud taliadau rheolaidd, er enghraifft, gyda chyfrif banc sy'n cynnwys rhodd ym mhob trafodiad, ni fydd angen iddynt roi caniatâd ar gyfer pob rhodd unigol.

Bagiau casglu elusennau

7.5.6 Rhaid i chi beidio â dosbarthu bagiau elusen (neu ddeunyddiau cysylltiedig) mewn eiddo lle mae preswylwyr wedi ei gwneud yn glir nad ydynt am eu derbyn (er enghraifft, gydag arwydd yn nodi 'dim bagiau elusen' neu debyg).

Dylai bagiau elusen fodloni'r safonau yng nghanllawiau'r Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA) **Bagiau casglu elusennol o ddrws i ddrws**.

8. Cyfathrebu a hysbysebu codi arian

Mae'r adran hon yn ymdrin â safonau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo eich gweithgaredd codi arian. Mae hefyd yn cynnwys safonau ar gyfer codi arian dros y ffôn, drwy'r post a thrwy negeseuon uniongyrchol.

Mae llawer o gyfathrebiadau codi arian ar ffurf hysbysebu ac felly maent yn cael eu cwmpasu gan **Cod Hysbysebu nad yw'n Ddarlledu a Marchnata Uniongyrchol a Hyrwyddo (Cod CAP)** a **Chod Hysbysebu Darlledu'r DU (Cod BCAP)**, sy'n cael eu rheoli gan yr **Awdurdod Safonau Hysbysebu (ASA)**. Mae'r ASA yn cynnig ystod o **gyngor ac adnoddau** a all helpu sefydliadau elusennol i sicrhau bod eu hysbysebu yn cadw at eu codau.

Nid yw codau'r ASA yn cwmpasu pob math o gyfathrebu codi arian, fel cyfathrebu byw a wneir dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, ond mae'r rhain wedi'u cwmpasu gan gyfreithiau diogelu defnyddwyr ehangach (fel **Rheoliadau Diogelu Defnyddwyr rhag Masnachu Annheg 2008** a Deddf **Hawliau Defnyddwyr 2015**). Mae disgwyl i bob math o gyfathrebu codi arian fodloni'r safonau a nodir yn yr adran hon.

8.1 Safonau cyffredinol



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

8.1.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod cynnwys eich cyfathrebiadau codi arian, a'r dulliau rydych chi'n eu defnyddio i'w cyflwyno, yn gyfrifol ac yn addas ar gyfer y bobl y maent wedi'u hanelu atynt.

8.1.2 Rhaid i chi beidio â defnyddio honiadau neu ddelweddau yn eich cyfathrebiadau codi arian y gallai roi sioc i bobl dim ond i ddenu sylw. Os ydych chi'n defnyddio cynnwys a allai beri sioc, dylech gynnwys rhybuddion am hyn.

8.1.3 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod y wybodaeth rydych chi'n ei chynnwys yn eich cyfathrebiadau codi arian am eich sefydliad elusennol a gweithgareddau codi arian yn gywir.

Rhagor o wybodaeth

Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth: **Gwneud eich gwefan neu ap sector cyhoeddus yn hygyrch**

Cyngor y sector ar gyfathrebu codi arian

Sefydliad Codi Arian Siartredig (CloF): **Cywirdeb ac eglurder wrth godi arian**

Astudiaethau achos

8.1.4 Rhaid i chi allu dangos bod pob astudiaeth achos yn gynrychioliadol o sefyllfaoedd go iawn.

Os yw unrhyw fanylion mewn astudiaeth achos wedi'u newid, rhaid i chi wneud hyn yn glir.

8.1.5 Rhaid i chi gael caniatâd clir a gwybodus gan unrhyw bobl y gellid eu hadnabod o astudiaeth achos cyn i chi ei ddefnyddio.

Os yw'r person wedi marw, rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i gael caniatâd gan ei ystâd.

Atodiadau

8.1.6 Rhaid i chi gymryd gofal priodol wrth gynnwys atodiadau mewn deunyddiau codi arian. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod atodiadau:

- yn cryfhau eich neges a pheidiwch ag annog rhywun i wneud rhodd ar sail euogrwydd neu embaras;
- yn ddiogel i'r person sy'n eu derbyn; ac
- nad ydynt yn achosi anghyfleustra diangen i'r person sy'n eu derbyn.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer cyfathrebu codi arian

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr bod eich cyfathrebiadau codi arian yn cadw at gyfraith nod masnach a hawlfraint, gan gynnwys **Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988** a **Deddf Nodau Masnach 1994**, a chael caniatâd priodol i ddefnyddio delweddu, logos ac yn y blaen gan y person neu'r sefydliad sy'n dal yr hawliau iddynt.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'ch hysbysebion cyhoeddus gadw at y canlynol.

Yn Lloegr

- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**
- **Rheoliadau Rheoli Hysbysebion 2007**
- **Deddf Priffyrdd 1980**

Yn yr Alban

- **Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Yr Alban) 1997**
- **Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) (Yr Alban) 1984**

yng Ngogledd Iwerddon

- **Rheoliadau Cynllunio (Rheoli Hysbysebion) Gogledd Iwerddon 2015**

8.2 Gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn cyfathrebiadau codi arian a chynnwys ar-lein



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

Yn ogystal â'ch prif wefan, efallai y bydd gennych wefannau neu ficro-wefannau cysylltiedig eraill wedi'u creu ar gyfer ymgyrchoedd neu ddigwyddiadau penodol. Mae'r adran hon yn cwmpasu'r holl wefannau sy'n cynnal gweithgareddau codi arian a chyfryngau ar-lein rydych chi'n eu rheoli, fel cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.

8.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich manylion cyswllt a'ch gwybodaeth am sut rydych chi'n prosesu data personol yn hawdd i'w cyrchu ar eich gwefan ac unrhyw le arall rydych chi'n casglu data personol.

8.2.2 Os ydych chi'n codi arian mewn partneriaeth ag un neu fwy o sefydliadau elusennol, rhaid i chi nodi sut y bydd yr arian yn cael ei rannu rhwng y sefydliadau.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer dogfennau codi arian

Ar gyfer elusennau

Mae adran 39 o Ddeddf Elusennau 2011 yn amlinellu'r wybodaeth y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i elusennau cofrestredig yng Nghymru a Lloegr gydag incwm dros £10,000 y flwyddyn ei chynnwys yn eu dogfennau codi arian.

Yn yr Alban, mae'r wybodaeth sy'n ofynnol mewn dogfennau sy'n ymwneud ag elusennau cofrestredig (gan gynnwys SCIOs) wedi'i amlinellu yn y canlynol.

- Rheoliadau Cyfeiriadau Elusennau mewn Dogfennau (Yr Alban) 2007 (fel y'u diwygiwyd)
- Rheoliadau Sefydliadau Corfforedig Elusennol yr Alban 2011 fel y'u diwygiwyd gan Rheoliadau Elusennau (Cyfeiriadau mewn Dogfennau) (Diwygio Amrywiol) (Yr Alban) 2024
- Adran 52 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005

Ar gyfer cwmnïau cofrestredig (gan gynnwys cwmnïau elusennol a chwmnïau buddiannau cymunedol)

Mae Rheoliadau Cwmnïau, Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnes (Enwau a Datgeliadau Masnachu) 2015 yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cwmnïau cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Tŷ'r Cwmnïau hefyd yn darparu canllawiau ar wybodaeth y mae'n rhaid iddi ymddangos ar arwyddion, deunydd ysgrifennu a deunydd hyrwyddo.

Mae adran 112(6) o Ddeddf Cwmnïau 1989 a Rheoliadau Cwmni, Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnes (Enwau a Datgeliadau Masnachu) 2015 yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol ar gyfer dogfennau sy'n ymwneud â chwmnïau cofrestredig yn yr Alban.

Rhagor o wybodaeth

Rheoleiddiwr Codi Arian: Gofynion ar gyfer dogfennau codi arian



Ar gyfer sefydliadau corfforedig elusennol

Mae'n ofynnol i sefydliadau corfforedig elusennol (CIOs) hefyd nodi eu henwau ym mhob dogfen a lleoliad lle byddai'n ofynnol i gwmni elusennol nodi ei enw o dan Reoliadau Cwmni, Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig a Busnes (Enwau a Datgeliadau Masnachu) 2015. Mae'r rhwymedigaeth hon wedi'i hamlinellu yn adran 211 o Ddeddf Elusennau 2011.

Mae sefydliadau corfforedig elusennol yr Alban (SCIOs) wedi'u cwmpasu gan y rheolau a sy'n cael eu hamlinellu uchod yn yr adran 'Ar gyfer elusennau'.

8.3 Galwadau codi arian



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

Mae'r adran hon yn cynnwys yr holl alwadau codi arian a negeseuon llais sy'n cael eu gwneud i ofyn am roddion ariannol a mathau eraill o roddion, fel amser gwirfoddoli. Nid yw'n cynnwys galwadau gweinyddol (er y gallwch ddefnyddio'r adran hon fel canllawiau ar gyfer y galwadau hynny).

8.3.1 Rhaid i chi beidio â gwneud galwadau codi arian:

- i unrhyw un y mae gennych reswm i gredu ei fod o dan 16 oed;
- ar ôl 9pm, oni bai bod y person wedi gofyn i chi ffonio ar ôl yr amser hwnnw; neu
- drwy ddeialu rhifau ar hap wedi eu cynhyrchu gan berson neu'n awtomatig.

8.3.2 Rhaid i chi wirio bod y person yn hapus i chi gysylltu â nhw ar yr adeg honno ar ddechrau galwad codi arian.

8.3.3 Rhaid i chi fod yn glir eich bod chi'n mynd i ofyn am gymorth ariannol yn ystod galwad codi arian (mae hyn yn cynnwys wrth adael neges llais).

8.3.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod eich galwadau codi arian yn cael eu gwneud yn gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys:

- peidio â gofyn am gyfraniad ariannol fwy na thair gwaith mewn un alwad.

Canllawiau ar farchnata dros y ffôn

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO): Marchnata uniongyrchol gan ddefnyddio galwadau byw a Marchnata dros y ffôn



Gofynion cyfreithiol ar gyfer galwadau codi arian

Mae **Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwydddeb CE) 2003** (PECR) yn amlinellu nifer o ofynion cyfreithiol sy'n ymwneud â galwadau ffôn, a fydd yn berthnasol i alwadau codi arian. Yn ystod galwadau codi arian, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi:

- roi eich enw ac enw'r sefydliad elusennol rydych chi'n codi arian ar ei gyfer;
- gwneud galwadau o rif y gall y person sy'n ei dderbyn ei adnabod ac y gallant ei ddefnyddio i ddychwelyd eich galwad;
- darparu cyfeiriad busnes dilys neu rif Rhadffôn os bydd rhywun yn gofyn sut y gallant gysylltu â chi; a
- rhoi datganiad erfyniad priodol os ydych chi'n godwr arian proffesiynol sy'n gofyn am roddion.

Yn ystod galwadau codi arian, fe'ch gwaherddir chi yn gyfreithiol rhag:

- gwneud galwadau ffôn awtomataidd (galwadau a wneir gan system deialu awtomataidd sy'n chwarae neges wedi'i recordio) oni bai bod gennych ganiatâd y person i wneud hyn;
- gwneud galwadau tawel neu alwadau segur;
- ffonio rhywun eto os ydynt wedi dweud wrthyhch mewn galwad nad ydynt yn hapus i chi gysylltu â nhw; neu
- honni bod galwadau marchnata yn alwadau gweinyddol.

Dim ond enghreifftiau yw'r rhain ac nid ydynt yn cynrychioli holl ofynion PECR. Mae Ofcom wedi darparu **canllawiau penodol ar Gamddefnyddio Cyfathrebu Electronig yn Barhaus**, sy'n cynnwys gwybodaeth am alwadau tawel a mathau eraill o alwadau niwsans.

8.4 Optio allan o gyfathrebiadau a chaniatâd



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

8.4.1 Rhaid i chi gael systemau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i wneud yn siŵr:

- nad ydych yn anfon cyfathrebiadau codi arian at bobl sydd wedi nodi nad ydynt am eu derbyn;
- eich bod yn stopio anfon cyfathrebiadau codi arian at bobl rydych chi'n gwybod eu bod wedi marw;
- eich bod yn bodloni'ch rhwymedigaethau o dan ddeddfwriaeth diogelu data; a
- bod eich cronfeydd data yn gywir, a lle bo angen, yn cael eu diweddarau.

Os nad oes gennych ganiatâd penodol i gysylltu â pherson, rhaid i chi wirio yn erbyn rhestrau o bobl sydd wedi nodi o'r blaen nad ydynt am dderbyn cyfathrebiadau codi arian, fel y canlynol.

- Gwasanaeth Dewis Codi Arian
- Gwasanaeth Dewis Postio
- Gwasanaeth Dewis Ffôn

8.4.2 Os oes gennych ganiatâd person i anfon marchnata uniongyrchol electronig atynt, rhaid i chi:

- gynnig ffordd hawdd iddynt dynnu eu caniatâd yn ôl (er enghraifft, drwy ddarparu dolen 'dad-danysgrifio' mewn e-bost); ac
- eu hatgoffa o'u dewisiadau cyswllt a chynnig ffordd hawdd iddynt newid y rhain (er enghraifft, drwy ddarparu dolen 'diweddarau dewisiadau marchnata').

8.4.3 Rhaid i chi ddefnyddio neges optio allan syml er mwyn i bobl ddweud wrthyich os nad ydyn nhw eisiau derbyn negeseuon gennych. Mae hyn yn cynnwys cynnig opsiwn i bobl ymateb i negeseuon symudol i optio allan o'u derbyn.

Rhagor o wybodaeth ar

Y Rheoleiddiwr Codi Arian: Gofynion cyfreithiol ar gyfer storio, cynnal a rhannu data

Y Rheoleiddiwr Codi Arian: Yr hawliau sydd gan bobl dros eu data

8.4.4 Rhaid i chi allu cyfiawnhau pa mor aml rydych chi'n cysylltu â phobl ynglŷn â chodi arian, gan gydbwysu'r angen i gyfathrebu â pheidio â llethu pobl.

8.4.5 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod datganiadau caniatâd sydd wedi'u cynnwys yn eich deunyddiau codi arian yn glir, yn hawdd eu darllen ac yn ddigon amlwg.



Gofynion cyfreithiol ar gyfleoedd i optio allan a chydsynio

O dan Reoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (Cyfarwyddeb y CE) 2003 (PECR), mae'n ofynnol yn gyfreithiol i ohebiaeth codi arian a anfonir drwy e-bost neu ffôn symudol:

- ddim ond gael ei hanfon at bobl sydd wedi rhoi eu caniatâd ymlaen llaw;
- cynnwys gweithdrefnau clir ar gyfer sut y gall pobl danysgrifio a dad-danysgrifio;
- cynnig ffordd o optio allan o negeseuon marchnata heb unrhyw gost ychwanegol; a
- chynnwys gwybodaeth glir am gostau sy'n gysylltiedig ag unrhyw negeseuon cyfradd premiwm.

O dan Erthygl 7 o UKGDPR, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi ddiweddarw cofnod y person yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'w ganiatâd neu ddewisiadau cyswllt. Am ragor o wybodaeth am ganiatâd, gweler canllawiau'r ICO ar gael, cofnodi a rheoli caniatâd.

Canllawiau ar gyfleoedd i optio allan a chaniatâd

Rheoleiddiwr
Codi Arian: Gwirio
cydymffurfiaeth y
Gwasanaeth Dewis
Ffôn (TPS): canllaw
cyflym ar gyfer
codwyr arian

ICO: Canllawiau
Marchnata
Uniongyrchol

9. Llwyfannau codi arian ar-lein

Gall tudalennau rhoddion fod ar wefan sefydliad elusennol ei hun neu ar blatfform codi arian ar-lein (er enghraifft, ar wefan sefydliad arall). Os yw gwefan sefydliad elusennol ei hun yn cyfeirio rhoddwyr at blatfform codi arian ar-lein sy'n codi ffioedd (gan gynnwys ffioedd trafodion talu) am bob rhodd, dylent wneud yn siŵr bod y ffioedd hynny, a sut maen nhw'n cael eu codi, yn glir.

Gall arian sy'n cael ei godi drwy llwyfannau codi arian ar-lein fynd:

- yn uniongyrchol i sefydliad elusennol;
- i godwr arian (neu godwyr arian) i'w drosglwyddo i sefydliad elusennol cofrestredig; neu
- i fuddiolwr nad yw'n sefydliad elusennol.

Mae rhai llwyfannau codi arian ar-lein yn dod o fewn y diffiniad o godwr arian proffesiynol neu gyfranogwr masnachol. Mae **Adran 6 Partneriaethau codi arian** yn esbonio'r safonau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r safonau rydyn ni'n eu disgwyl gan llwyfannau codi arian ar-lein i sicrhau bod codi arian yn gyfrifol, yn glir am y ffioedd ac yn unol â'r cod.

Yn ogystal â'r safonau isod, dylai llwyfannau codi arian ar-lein weld yr adrannau canlynol o'r cod.

- Am ragor o safonau ar brosesu rhoddion, gweler **adran 3 Prosesu rhoddion**.
- Am fwy o safonau ar y berthynas rhwng sefydliadau elusennol a'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau codi arian trwy llwyfannau codi arian ar-lein, gweler **adran 4 gwirfoddolwy** ac **adran 10 Digwyddiadau**.

9.1 Cyfrifoldebau llwyfannau codi arian ar-lein



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw llwyfan codi arian ar-lein.

Safonau cyffredinol

9.1.1 Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod codi arian elusennol ar eich llwyfan yn cael ei gynnal yn gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys:

- cadw i fyny â'r cod a'r canllawiau rydyn ni'n eu darparu;
- dilyn canllawiau perthnasol ar gyfer llwyfannau codi arian;
- dileu ymgyrchoedd codi arian elusennol amhriodol; ac
- ymateb yn briodol i geisiadau rhesymol gan sefydliadau elusennol.

9.1.2 Rhaid i chi ddarparu dolen hawdd ei gyrchu i ddefnyddwyr i'n canllawiau i'r rhai sy'n sefydlu tudalen codi arian cyn y gallant dderbyn rhoddion ar eich llwyfan. Rhaid i ddefnyddwyr gytuno i gadw at adrannau perthnasol o'r cod fel amod o ddefnyddio eich llwyfan.

Os oes angen, bydd hyn yn caniatáu ichi atal defnyddiwr os yw ei dudalen yn torri'r cod.

Ffioedd am gynnal ymgyrch codi arian

Bydd y rhan fwyaf o offer a llwyfannau codi arian yn codi ffi, naill ai i'r sefydliad elusennol neu'r rhoddwr, fel rhan o'u model busnes. P'un a yw hwn yn swm penodol ar gyfer pob rhodd, canran o'r rhodd neu'r Cymorth Rhodd, tanysgrifiad gan yr elusen, neu daliad ychwanegol gan y rhoddwr, rhaid i wybodaeth am y ffioedd hyn a sut maent yn cael eu cyfrifo fod yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddynt.

9.1.3 Os ydych chi'n codi ffioedd am gynnal ymgyrch codi arian, rhaid i chi wneud yn siŵr bod y wybodaeth ganlynol yn amlwg i roddwyr cyn i chi ofyn am eu manylion ariannol.

- Sut y bydd eich ffi yn cael ei chyfrifo (er enghraifft, fel canran o'r Cymorth Rhodd ar y rhodd, neu dâl sefydlog ar gyfer pob rhodd).
- Faint y byddwch chi'n ei dderbyn o'u rhodd. (Os nad ydych yn gwybod yr union swm ar adeg y rhodd, rhowch enghraifft sy'n dangos faint rydych chi'n ei dderbyn ar rodd gynrychioliadol o, er enghraifft, £10.)
- Sut y gellir diwygio neu ddileu eich ffi, os yw hyn yn bosibl. Os gellir tynnu'r ffi, rhaid i chi gynnig ffordd syml i ddefnyddwyr wneud hyn.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer llwyfannau codi arian

Mae angen i chi fodloni'r holl ofynion cyfreithiol sy'n berthnasol i chi fel llwyfan codi arian ar-lein. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y canlynol.

Diogelu data: Yn y DU, **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth** (ICO) yw'r prif reoleiddiwr ar gyfer diogelu data. Gall ddarparu'r wybodaeth fwyaf diweddar ar sut i gadw at y canlynol.

- **Deddf Diogelu Data 2018**
- **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (UKGDPR)**
- **Y Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig (PECR)**

Deddfau a rheoliadau gwasanaethau ariannol: Mae'r **Awdurdod Ymddygiad Ariannol** (FCA) yn gyfrifol am gyfreithiau a rheoliadau gwasanaethau ariannol ac mae'n darparu canllawiau am hyn.

Canllawiau pellach

Rheoleiddiwr
Codi Arian:

**Canllawiau ar gyfer
llwyfannau codi arian**

**Cyngor a chanllawiau
codi arian ar-lein i'r
cyhoedd**

**Cwestiynau allweddol
y dylech eu gofyn wrth
gyfrannu at apêl codi**

Canllawiau ar ddigwyddiadau

yng nghefn gwlad

Rheoleiddiwr Codi Arian: Gofynion cyfreithiol ar gyfer Digwyddiadau

Cymru a Lloegr: Y Cod Cefn Gwlad

Yr Alban: Cod Mynediad Awyr Agored yr Alban

Gogledd Iwerddon: Cod Cefn Gwlad Gogledd Iwerddon

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio tir mynediad agored yng Nghymru neu Loegr, dylech hefyd wneud yn siŵr bod eich digwyddiadau yn dilyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. Mae Natural England hefyd yn darparu canllawiau ar Dir mynediad agored: rheolaeth, hawliau a chyfrifoldebau.

10. Digwyddiadau

Mae codi arian mewn digwyddiad yn ffordd o ddod â chymunedau at ei gilydd i godi arian ar gyfer achos penodol. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ar gyfer cynllunio a chynnal digwyddiadau (gan gynnwys digwyddiadau her a rhithwir) yn y DU neu dramor, gan gynnwys cael unrhyw ganiatâd sydd ei angen i ddefnyddio safle, sicrhau bod digwyddiadau yn ddiogel a rheoli'r risgiau yn gyfrifol.

10.1 Cynllunio'r digwyddiad



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

10.1.1 Rhaid i chi gynnal asesiad risg priodol cyn cynnal digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys:

- bod yn glir ynghylch pwy sy'n yswirio yn erbyn pob risg (er enghraifft, chi neu berchennog unrhyw adeilad rydych chi'n ei ddefnyddio); ac
- amlinellu cyfrifoldebau a risgiau penodol wrth weithio gyda thrydydd parti.

Os ydych chi'n gyflogwr, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi gynnal asesiad risg o dan Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999 neu Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Gogledd Iwerddon) 2000.

10.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod trefniadau iechyd a diogelwch yn addas ar gyfer y digwyddiad rydych chi'n ei gynnal.

10.1.3 Rhaid i chi gael cynllun i gwmpasu pob sefyllfa y gallech ei ddisgwyl yn rhesymol yn y digwyddiad a gwneud yn siŵr bod y bobl dan sylw yn deall beth rydych chi'n ei ddisgwyl ganddynt.

10.1.4 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod gennych yr holl ganiatâd a thrwyddedau sydd eu hangen ar gyfer y digwyddiad ac yn bodloni unrhyw ganllawiau lleol perthnasol sy'n berthnasol i'r digwyddiad neu'r safle.

10.2 Hyrwyddo digwyddiad

Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

10.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw ddeunyddiau sy'n annog pobl i godi arian fel rhan o ddigwyddiad, a'r rhai a anfonir at gyfranogwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer digwyddiad, yn glir ynaglŷn â'r hyn a ddisgwylir ganddynt a sut y bydd rhoddion yn cael eu defnyddio. Mae hyn yn cynnwys:

- yr ymrwymadau y mae'n rhaid i gyfranogwyr eu gwneud;
- a oes rhaid i gyfranogwyr dalu ffi gofrestru bersonol; ac
- a fydd unrhyw ran o'r arian y mae cyfranogwr yn ei godi yn cael ei ddefnyddio i fod o fudd uniongyrchol iddynt, er enghraifft drwy dalu eu treuliau.

Rhaid i bob cyfathrebu sy'n ymwneud â'ch digwyddiad fod yn glir ac yn gywir, yn unol ag adran 8 o'r cod a rheolau'r **Awdurdod Safonau Hysbysebu**. Yn benodol, dylech fod yn glir ynghylch sut y bydd yr arian a godir gan y digwyddiad yn cael ei ddefnyddio.

10.3 Recriwtio cyfranogwyr a chasglu'r arian a godwyd



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

10.3.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod cyfranogwyr yn ymwybodol o'r canlynol cyn cymryd rhan mewn digwyddiad codi arian:

- unrhyw dargedau codi arian y mae disgwyl iddynt eu bodloni; ac
- unrhyw oedran, lefel ffitrwydd, paratoi neu hyfforddiant sydd ei angen i gymryd rhan yn ddiogel.



Gofynion cyfreithiol ar gyfer recriwtio cyfranogwyr

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, o dan **Ddeddf Cydraddoldeb 2010**, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr nad yw eich digwyddiadau codi arian yn gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i chi wneud yn siŵr nad yw eich digwyddiadau codi arian yn gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion sy'n cael eu diogelu gan y gyfraith.

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am hyn o:

- yng Nghymru a Lloegr: **y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**; ac
- yng Ngogledd Iwerddon: **Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon**.

Os yw person wedi'i recriwtio i gymryd rhan mewn digwyddiad, dim ond mewn rhai amgylchiadau y gallwch wrthod caniatáu hyn, megis os ydynt wedi torri amodau'r digwyddiad neu os oes risg i iechyd a diogelwch. Rhaid i chi hefyd wneud yn siŵr bod gennych yr holl ganiatâd cyfreithiol perthnasol, yn ysgrifenedig, sydd ei angen arnoch gan gyfranogwyr cyn y digwyddiad.

Dylech ystyried a ddylid trin y cyfranogwyr fel codwyr arian proffesiynol. Maent yn debygol o ddod o fewn y diffiniad cyfreithiol o godwyr arian proffesiynol os ydyn nhw'n defnyddio mwy na £1,000 o'r arian nawdd maen nhw'n ei godi i dalu am eu costau i gymryd rhan yn y digwyddiad.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

- **adran 6 Partneriaethau codi arian**; a
- Sefydliad Siartredig Codi Arian (CIOF): **Digwyddiadau Her**.

Canllawiau ar ddigwyddiadau

Rheoleiddiwr Codi Arian: **Gofynion cyfreithiol ar gyfer digwyddiadau**

10.3.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod ffurflenni nawdd yn glir am unrhyw amodau y mae angen i gyfranogwyr eu bodloni i dderbyn yr arian nawdd (er enghraifft, gorffen marathon).

10.3.3 Rhaid i chi fod â gweithdrefnau ar waith i gwmpasu sut y dylid dweud wrth noddwyr a'u had-dalu os:

- nad yw'r cyfranogwr yn bodloni unrhyw amodau sy'n berthnasol; neu
- bod y digwyddiad yn cael ei ganslo.

Os rhoddir arian nawdd heb amodau cyfranogiad, efallai na fyddwch yn gallu ei ad-dalu.

I gael rhagor o wybodaeth am ad-daliadau, gweler **adran 2.2 Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion.**

10.3.4 Rhaid i sefydliadau elusennol gael gweithdrefnau i gwmpasu:

- sut y byddant yn dilyn i fyny ar gyfranogwyr nad ydynt wedi bodloni unrhyw ofynion nawdd lleiafswm; a
- sut y dylai cyfranogwyr ddilyn i fyny ar roddwyr nad ydynt wedi talu.

11. Cystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim

Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth am godi arian ar gyfer sefydliad elusennol drwy gystadlaethau gwobrau neu rafflau am ddim.

11.1 Gofynion cyffredinol



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

11.1.1 Os ydych chi'n codi arian ar ran sefydliad elusennol drwy gystadleuaeth wobr neu raffl am ddim, rhaid i chi gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y sefydliad elusennol i wneud hynny.

11.1.2 Rhaid i chi gyhoeddi enw'r trefnydd a chynnwys dull clir a syml o gael mynediad at unrhyw delerau ac amodau mewn cyfathrebu am gystadlaethau gwobrau a rafflau am ddim.

Os ydych chi'n drefnydd cystadleuaeth wobr neu raffl am ddim, rhaid i chi ddilyn y **Cod Hysbysebu nad yw'n Ddarlledu a Marchnata Uniongyrchol a Hyrwyddo (cod PAC)**. Yn benodol, rhaid i chi ddilyn yr adran ar **farchnata hyrwyddo**.

Os ydych chi'n defnyddio llinell ffôn premiwm i ganiatáu i bobl gymryd rhan yn eich cystadlaethau gwobrau neu rafflau am ddim, rhaid i chi ddilyn **Cod Ymarfer** yr Awdurdod Gwasanaethau Talu Dros y Ffôn (PSA).

Canllawiau ar loterïau

Rheoleiddiwr Codi
Arian: **Loterïau**

11.2 Y raffl



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

Y weithdrefn ar gyfer y raffl

11.2.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl gofrestriadau tocynnau dilys wedi'u cynnwys yn y raffl, bod y raffl ar hap ac y gellir dilysu hynny, a bod y canlyniad yn cael ei gofnodi.

Os yw'r raffl yn digwydd wyneb yn wyneb, mae gwirio yn cynnwys gwneud yn siŵr bod tyst i'r raffl.

Os yw'r raffl yn cael ei gynnal yn electronig, mae gwirio yn cynnwys defnyddio prosesau sy'n cynhyrchu canlyniadau ar hap (er enghraifft, generadur rhifau ar hap).

11.2.2 Rhaid i chi ddweud wrth ymgeiswyr sut y bydd y raffl yn cael ei gynnal, a rhoi manylion clir iddynt am yr holl reolau perthnasol, cyfarwyddiadau mynediad, dyddiadau a dyddiadau cau.

Y weithdrefn ar ôl y raffl

11.2.3 Ar ôl y raffl rhaid i chi:

- roi cofnodion tocynnau a thaliadau i'r trefnydd at ddibenion archwilio;
- cymryd pob cam rhesymol i gysylltu â'r holl enillwyr o fewn saith diwrnod i'r raffl;
- cymryd pob cam rhesymol i ddyfarnu gwobrau i'r enillwyr; a
- gwneud manylion yr enillwyr yn gyhoeddus (oni bai eu bod yn gwrthwynebu hyn pan wnaethant gystadlu yn y raffl).

Canllawiau ar gystadlaethau gwobrau

Comisiwn Gamblo:
Rafflau am ddim
a chystadlaethau
gwobrau

Adran Cymunedau
Gogledd
Iwerddon: Taflen
ar gystadlaethau
gwobrau yng
Ngogledd Iwerddon

Awdurdod Safonau
Hysbysebu (ASA):
Marchnata hyrwyddo:
Rafflau gwobrau

12. Cyrff sy'n rhoi grantiau (gan gynnwys ymddiriedolaethau a sefydliadau)

Mae cyrff sy'n rhoi grantiau yn sicrhau bod arian ar gael i ariannu prosiectau o fewn eu dibenion elusennol, dyngarol neu gymwynasgar. Mae'r adran hon yn cynnwys safonau ynglŷn â gwneud cais am y grantiau hyn, eu derbyn a'u defnyddio.

12.1 Ceisiadau am grantiau a monitro



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti.

12.1.1 Rhaid i chi baratoi eich ceisiadau am grant yn gyfrifol. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau bod gennych ganiatâd priodol i gynnwys unrhyw ganolwyr yn eich cais.

12.1.2 Rhaid i chi weithredu'n briodol ar ôl y penderfyniad grant. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau eich bod yn deall ac yn gallu bodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â'r grant;
- bodloni gofynion gweinyddol y corff gwneud grantiau a thelerau ac amodau eich cytundeb grant; a
- dim ond apelio yn erbyn gwrthodiad os oes gennych resymau priodol.

12.1.3 Rhaid i chi gyfathrebu'n briodol â'r corff sy'n rhoi grantiau. Gall hyn gynnwys:

- dweud wrthynt os oes unrhyw broblemau difrifol gyda'r prosiect a ariennir;
- dilyn eu canllawiau a'u gofynion adrodd yn agos; a
- gofyn am eu caniatâd ysgrifenedig cyn newid sut mae'r grant yn cael ei wario.

13. Rhoi drwy Gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth

Mae'r adran hon yn cynnwys y safonau ar gyfer hyrwyddo cynlluniau cyflogres a chyflogau ar ôl treth yn y gweithle. Mae'n cynnwys bodloni gofynion **Cyllid a Thollau EF (CThEF)** a gwneud yn siŵr bod gan gyflogwyr a gweithwyr ddisgwyliadau clir ynghylch sut mae eich cynllun yn gweithio.

Mae yna wahanol fathau o godi arian yn y gweithle, ac mae yna gyfreithiau penodol a hunan-reoleiddio y dylech gadw atynt. Mae'r cod yn cwmpasu rhoddion a wneir yn uniongyrchol o gyflog gweithiwr yn y ffyrdd canlynol.

- Rhoi drwy Gyflogres – cynllun treth-efeithlon lle cymerir rhoddion o gyflog gweithwyr cyn cymryd treth.
- Rhoddion cyflog ar ôl treth – lle mae rhoddion gweithwyr yn cael eu cymryd o'u cyflog ar ôl cymryd treth.

Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer rhoddion i elusennau yn unig, a rhaid iddynt gael eu rhedeg drwy asiantaeth Rhoi drwy Gyflogres wedi eu dewis gan y cyflogwr. Mae asiantaethau Rhoi drwy Gyflogres yn derbyn rhoddion gweithwyr y mae'r cyflogwr wedi'u cymryd trwy'r gyflogres. Yna mae'r asiantaethau yn trosglwyddo'r rhoddion i'r elusennau perthnasol. Mae gan wefan CThEF **restr o asiantaethau rhoi drwy gyflogres sydd wedi'u cymeradwyo ar hyn o bryd.**

13.1 Rhoi drwy Gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw asiantaeth Rhoi drwy Gyflogres neu godi arian proffesiynol sy'n ymwneud â Rhoi drwy Gyflogres, oni bai ein bod yn dweud wrthy ch fel arall.

13.1.1 Rhaid i chi fod yn glir i roddwyr eu bod yn rhydd i ddod â chytundeb i roi i ben ar unrhyw adeg.

13.1.2 Rhaid i chi beidio â chynnig unrhyw fuddion i roddwyr yn gyfnewid am roi, a rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw gyfeiriadau at wahanol lefelau o ryddhad treth yn gywir.

Gall sefydliadau elusennol sy'n derbyn rhoddion Rhoi drwy Gyflogres neu roddion cyflog ar ôl treth ddarparu buddion cyfyngedig yn unol â chanllawiau CThEF ar roi drwy gyflogres.

13.1.3 Rhaid i godwyr arian proffesiynol sy'n ymwneud â rhoi drwy gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth:

- sicrhau bod dymuniadau rhoddwyr sy'n ymwneud â pha elusen neu elusennau fydd yn derbyn eu rhodd yn cael eu dilyn;
- prosesu a throsglwyddo gwybodaeth sy'n ymwneud â rhoddwyr newydd i'r sefydliad elusennol cyn gynted â phosibl;
- cynrychioli pob elusen yn deg wrth weithio i fwy nag un elusen; a
- bod yn glir y gall rhoddwyr roi i unrhyw elusen o'u dewis, hyd yn oed os ydych chi'n hyrwyddo elusen benodol.

Rhaid i godwyr arian proffesiynol sy'n ymwneud â Rhoi drwy Gyflogres hefyd fodloni disgwyliadau'r datganiad erfyniad a nodir yn adran 6 Partneriaethau Codi Arian.

Hyrwyddo Rhoi drwy Gyflogres a rhoddion cyflog ar ôl treth yn y gweithle

13.1.4 Rhaid i chi gytuno ar amodau mynediad gyda'r cyflogwr perthnasol cyn trafod rhoddion gyda gweithwyr.

13.1.5 Rhaid i godwyr arian wisgo bathodynau adnabod gyda llun, a ddarperir gan drefnydd y gweithgaredd codi arian neu'r sefydliad codi arian perthnasol, bob amser wrth hyrwyddo Rhoi drwy Gyflogres yn y gweithle. Rhaid gwisgo'r bathodynau adnabod mewn man lle gellir eu gweld yn glir.



Gofynion cyfreithiol

Rhaid i asiantaethau Rhoi drwy Gyflogres a chyflogwyr sy'n defnyddio eu cynlluniau gadw at Reoliadau Didyniadau Elusennol (Cynlluniau Cymeradwy) 1986.

Cyngor y sector ar etifeddiaeth

Sefydliad Codi Arian Siartredig (CloF): [Cyflwyniad i Godi Arian drwy Etifeddiaeth](#)

Sefydliad Rheoli Etifeddiaeth (ILM): [Canllawiau Arfer Da a Mewnwelediadau ar Etifeddiaeth](#)

Canllawiau ar godi arian trwy ewyllysiau

Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr (CCEW): [Codi arian drwy ewyllysiau ac etifeddiaeth elusennol](#)

14. Etifeddiaeth

Gall rhoddion mewn ewyllysiau (etifeddiaethau) fod yn faes arbennig o sensitif o godi arian, felly mae'n bwysig bod gan godwyr arian ffiniau clir i'w rôl. Mae'r adran hon yn amlinellu safonau i osgoi dylanwad a phwysau diangen a rheoli gwrthdaro buddiannau tra'n sensitif i ddymuniadau'r person sy'n gadael y rhodd (yr ewyllysiwr) ac unrhyw amodau y gallant eu gosod.

14.1 Cyfrifoldebau cyffredinol



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti, oni bai ein bod yn dweud wrthyich fel arall.

14.1.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod yr holl weithgareddau codi arian sy'n ymwneud ag etifeddiaeth yn ystyried:

- rhyddid yr ewyllysiwr posibl i ddarparu ar gyfer eu teulu ac eraill; ac
- unrhyw amgylchiadau sensitif yr ewyllysiwr posibl a'u teulu a'u ffrindiau, lle bo hynny'n hysbys.

14.1.2 Rhaid i chi wneud yn siŵr bod unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu i ddarpar gymynwyr ei chynnwys yn eu hewyllys neu ddogfennau cysylltiedig yn glir ac yn gywir.

Rhaid i chi fod yn glir nad yw unrhyw eiriad a awgrymir yn cynrychioli cyngor cyfreithiol. Os ydych chi'n darparu geiriad a awgrymir am eich sefydliad elusennol, dylai hyn gynnwys y sefydliad elusennol:

- enw a chyfeiriad llawn; a
- manylion cofrestru (megis rhif yr elusen a'r cyfeiriad cofrestredig).

14.1.3 Os yw'r ewyllysiwr posibl yn gofyn i chi neu unrhyw un o'ch swyddogion neu weithwyr weithredu fel ysgutor, rhaid i chi ystyried:

- a oes gennych y pŵer cyfreithiol i wneud hyn;
- a yw er budd eich sefydliad elusennol; ac
- a oes unrhyw risgiau neu wrthdaro buddiannau posibl i'ch sefydliad elusennol.

14.2 Cyfathrebu wyneb yn wyneb



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti, oni bai ein bod yn dweud wrthyhych fel arall.

14.2.1 Rhaid i chi ymddwyn yn barchus tuag at ddarpar ewyllysiwr . Fel rhan o hyn, rhaid i chi wneud yn siŵr bod codwyr arian:

- yn agored am y rheswm dros wahodd rhywun i ddigwyddiad lle bydd etifeddiaeth yn cael ei drafod;
- yn peidio â gweithredu mewn ffordd y gellid ei ystyried eu bod yn rhoi pwysau afresymol;
- yn cynnal cyfarfodydd mewn ffordd addas, sy'n sensitif i fuddiannau a phryderon yr ewyllysiwr posibl;
- yn cadw cofnod o gyfarfodydd a chyfathrebu â ewyllysiwr posibl; ac
- yn derbyn hawl yr ewyllysiwr posibl i:
 - wahodd pobl eraill i bob cyfarfod;
 - gwrthod cyfarfod; neu
 - orffen cyfarfod ar unrhyw adeg.

14.3 Cynnwys sefydliadau elusennol wrth wneud ewyllys



Yn yr adran hon, ystyr 'chi' yw sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti, oni bai ein bod yn dweud wrthyhych fel arall.

Gall perthnasoedd agos ddatblygu rhwng codwr arian a pherson sy'n ystyried gadael etifeddiaeth i sefydliad elusennol. Gall hyn arwain at y codwr arian yn elwa yn hytrach na'r sefydliad elusennol, gan y gellir gadael etifeddiaeth i'r codwr arian unigol yn hytrach nag i'r sefydliad elusennol.

14.3.1 Rhaid i chi wneud yn siŵr nad yw codwyr arian yn manteisio ar berthynas â ewyllysiwr posibl wrth godi arian. Er mwyn osgoi hyn, rhaid i godwyr arian:

- beidio â drafftio, neu fod yn rhan uniongyrchol o ddrafftio, ewyllysiau o'u plaid nhw; a
- dweud wrthyhych am unrhyw gynnig o etifeddiaeth bersonol (yn hytrach nag etifeddiaeth i'r sefydliad elusennol).

14.3.2 Rhaid i chi gael gweithdrefnau yn eu lle i ddelio â sefyllfaoedd lle mae ewyllysiwr posibl yn cynnig etifeddiaeth bersonol i godwr arian.

Os ydych chi'n credu bod codwr arian wedi manteisio ar eu sefyllfa i geisio etifeddiaeth bersonol, rhaid i chi ddilyn gweithdrefnau disgyblu priodol.

14.3.3 Mae risgiau sylweddol wrth dalu'r costau sy'n gysylltiedig â gwneud ewyllys sy'n cynnwys etifeddiaeth i'ch sefydliad elusennol. Os byddwch chi'n dewis gwneud hyn, rhaid i chi:

- beidio â mynnu bod eich sefydliad elusennol yn derbyn etifeddiaeth neu gael ei benodi fel ysgutor yn gyfnewid am dalu am yr ewyllys; a
- darparu gwybodaeth glir am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnis ac opsiynau'r ewyllysiwr.

Os ydych chi'n defnyddio partner ysgrifennu ewyllysiau, mae gwybodaeth glir yn cynnwys:

- darparu gwybodaeth am lefel y cyngor cyfreithiol y bydd y partner yn ei ddarparu;
- rhoi o leiaf ddau bartner i'r ewyllysiwr ddewis ohonynt, heb roi argymhelliad*; a'i
- gwneud hi'n glir y bydd y partner ysgrifennu ewyllysiau yn gweithredu er budd yr ewyllysiwr posibl ac ar eu cyfarwyddiadau nhw yn unig.

Os nad ydych chi'n defnyddio partner ysgrifennu ewyllysiau, mae gwybodaeth glir yn cynnwys:

- argymhell y dylai'r ewyllysiwr posibl gael cyngor cyfreithiol annibynnol.

*Bydd yr adran hon yn destun diwygiad bach yn y fersiwn derfynol o'r cod (Tachwedd 2025). [Darllenwch ein blog am ragor o fanylion a'n heglurhad o'r newidiadau.](#)



Etifeddiaeth gydag amodau neu at ddibenion cyfyngedig

Gall ewyllysiwr osod amodau ar eu hetifeddiaeth, megis sut maen nhw eisiau i'r sefydliad elusennol gydnabod y rhodd. Gall ewyllysiwr hefyd ddweud bod yn rhaid defnyddio'r etifeddiaeth at ddiben neu brosiect penodol.

Bydd angen i chi ystyried a allwch fodloni'r amodau neu ddefnyddio'r etifeddiant at y diben cyfyngedig cyn i chi ei dderbyn. Efallai y bydd angen i chi gael cyngor cyfreithiol annibynnol ar hyn. Os na allwch fodloni'r amodau neu ddefnyddio'r etifeddiaeth at y dibenion cyfyngedig, ni ddylech ei dderbyn.

I gael rhagor o wybodaeth am dderbyn a gwrthod rhoddion, gweler **adran 2.2 Derbyn, gwrthod a dychwelyd rhoddion.**

Geirfa

Mae'r adran hon yn diffinio'r termau allweddol sy'n cael eu defnyddio yn y cod. Mae pob diffiniad yn amlinellu sut mae'r telerau'n cael eu defnyddio yng nghyd-destun y cod.



amgylchiadau bregus

Cyflwr lle mae person yn agored i niwed oherwydd ei amgylchiadau personol.

Gall amgylchiadau bregus amrywio o ddydd i ddydd, a all effeithio ar ymddygiad neu benderfyniadau'r person ac sy'n golygu bod angen ymateb yn hyblyg.

Asiantaeth Rhoi trwy Gyflogres

Elusen sy'n cael ei hadnabod gan CThEF at ddibenion sy'n ymwneud â Rhoi trwy Gyflogres.

atodiadau

Eitemau neu ddeunyddiau sydd wedi'u cynnwys mewn marchnata uniongyrchol sy'n cael ei ddanfôn drwy'r post.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- anrhegion diolch;
- cymhellion i roi; a

gwybodaeth am waith y sefydliad elusennol.

awdurdod perthnasol

Y person neu'r sefydliad y mae angen i sefydliad elusennol neu godwr arian trydydd parti wneud cais ato am ganiatâd neu drwydded i godi arian. Ar gyfer codi arian ar dir cyhoeddus, yr awdurdod perthnasol fydd yr awdurdod trwyddedu perthnasol. Ar gyfer codi arian ar dir preifat, fel arfer perchennog y safle neu'r rheolwr fydd yr awdurdod perthnasol.

awdurdod trwyddedu

Y corff sydd â'r pŵer cyfreithiol i gyhoeddi trwyddedau ar gyfer casgliadau o ddrws i ddrws a chasgliadau stryd.

blwch casglu wedi'i selio

Blwch casglu wedi'i selio sy'n cael ei ddefnyddio gan godwyr arian i gasglu rhoddion arian parod. Mae'r rhain fel arfer yn cael eu dychwelyd i'r sefydliad elusennol fel bod posib eu hailddefnyddio.

Nid yw bocsys neu flychau y mae posib eu gosod ar eich pen eich hun a bocys neu flychau agored sy'n cael eu darparu i wirfoddolwyr a gyda sticeri wedi'u brandio yn cael eu hystyried yn flychau casglu wedi'i selio.

budd

Rhywbeth sy'n cael ei roi i roddwr (neu i rywun sy'n gysylltiedig â nhw) yn gyfnewid am eu rhodd. Os bydd gwerth y budd yn uwch na rhai o'r cyfyngiadau, ni fydd y rhodd yn cymhwyso ar gyfer Rhodd Cymorth.

Ewch i dudalen CThEF GOV.UK [**am fwy o wybodaeth**](#).

budd ariannol

Buddion (megis rhyddhad treth) y mae rhoddwr yn ei dderbyn o ganlyniad i wneud rhodd.

caniatâd

Yng nghyd-destun prosesu data personol, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio caniatâd fel: 'Mae 'caniatâd' goddrych y data yn golygu unrhyw arwydd o ddyheadau goddrych y data a roddir yn wirfoddol, yn benodol, yn wybodus, ac yn ddigamsyniol trwy'r hyn y mae ef/hi, trwy ddatganiad neu drwy weithred eglur cadarnhaol yn dynodi ei fod/ei bod hi yn cytuno i'r prosesu o'r data personol sy'n berthnasol iddo/iddi'.

Mae hyn yn dangos y dylai'r person ddangos eu bod yn cytuno eich bod yn cael defnyddio eu data gyda gweithrediad clir, positif (er enghraifft wrth dicio blwch optio i mewn). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r person ddangos ei fod yn cytuno i chi ddefnyddio eu data gyda gweithred glir, gadarnhaol (er enghraifft, wrth dicio blwch optio i mewn).

casgliad elusennol cyhoeddus

Casgliad at ddibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol sy'n cael ei gynnal ar y stryd, mewn man cyhoeddus neu o ddrws i ddrws.

casgliad heb staff

Dulliau o roi arian neu eiddo arall nad oes angen codwr arian i fod yn bresennol.

casgliad statig

Casgliad sy'n defnyddio blychau casglu sy'n aros mewn un lle – naill ai ar y llawr neu ar gownteri mewn mannau fel siopau, tafarndai, gwestai, ysbytai ac ardaloedd derbynfa.

casgliadau stryd

Casgliadau o arian neu eiddo arall sy'n cael ei wneud ar stryd at ddibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol.

casglu

Casgliad o arian neu eiddo arall:

- yn gyhoeddus;
- ar dir preifat; neu
- o ddrws i ddrws.

casglwr

Person neu sefydliad sy'n casglu rhoddion o ddrws i ddrws, fel rhan o gasglu stryd ar dir preifat.

cod QR (cod ymateb sydyn)

Delwedd y mae posib ei sganio gan ddyfais symudol i gyfeirio defnyddwyr at wefan neu ap penodol. Mae posib defnyddio codau QR i arwain rhoddwyr posibl yn syth i safle rhoddion neu i dudalen sy'n cynnwys mwy o wybodaeth am sefydliad elusennol.

Codau byr elusen

Rhifau negeseuon testun sy'n cael eu defnyddio i yrru rhoddion i sefydliad elusennol o ffonau symudol. Codau byr elusen yw rhifau o fewn amrediad o 70000 i 70999 fel bod posib eu gwahaniaethu rhag gwasanaethau codau byr eraill.

codi arian

Gofyn am arian neu eiddo arall at ddibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol.

codi arian o drws i ddrws i ddrws

Casglu arian neu unrhyw eiddo arall ar gyfer dibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol wrth fynd o ddrws i ddrws mewn eiddo preswyl neu fusnes.

codwr arian

Person sy'n gofyn am arian neu eiddo arall ar gyfer sefydliad elusennol neu at ddibenion elusennol, llesiannol neu ddyngarol. Efallai y bydd codwyr arian gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr, sy'n cael eu cyflogi gan sefydliad elusennol neu wedi'u cyflogi gan bartner codi arian (neu ei is-gontractwr). Gall codwyr arian fod yn wirfoddolwyr ar ran, ymddiriedolwyr, wedi'u cyflogi gan sefydliad elusennol neu wedi'u cyflogi gan bartner codi arian (neu ei is-gontractwr).

Nid yw er budd gwirfoddolwr yn cael ei ystyried yn godwr arian ar gyfer dibenion y cod.

codwr arian proffesiynol

Person sy'n cynnal busnes codi arian neu (gyda rhai eithriadau) unrhyw berson arall sy'n cael ei dalu i godi arian neu eiddo arall er budd sefydliad elusennol. Mae hwn yn ddiffiniad cyfreithiol sy'n cael ei nodi **yn adran 58 o Ddeddf Elusennau 1992** ac **adran 79 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005**.

Nid yw cyfranogwyr masnachol a chwmnïau cysylltiedig yn godwyr arian proffesiynol.

codwr arian trydydd parti

Sefydliadau neu bobl y mae sefydliad elusennol wedi'u hawdurdodi i godi arian ar ei ran. Gallant fod ar ran gwirfoddolwyr, codwyr arian proffesiynol, partneriaid codi arian, cyfranogwyr masnachol neu bartneriaid corfforaethol.

corff llywodraethu

Y corff sy'n gyfrifol am sicrhau bod sefydliad elusennol yn cael ei redeg yn effeithiol ac yn bodloni'r amcanion sydd wedi eu rhestru yn ei ddogfen llywodraethu. Mae'r enwau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cyrff llywodraethu yn cynnwys bwrdd, pwyllgor rheoli, cyngor, ymddiriedolwyr a llywodraethwyr.

corff rhannu grantiau

Sefydliad sy'n darparu cyllid (sy'n cael ei alw'n grant) fel bod sefydliad arall yn gallu cyflawni dibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol penodol y mae'r ddau sefydliad wedi cytuno arnynt.

cwmni buddiannau cymunedol (CIC)

Cwmni cyfyngedig a'i brif nod yw bod o fudd y gymuned yn hytrach na gwneud elw preifat.

Mae'r cod yn cwmpasu codi arian sy'n cael ei gynnal gan gwmnïau buddiannau cymunedol.

cwmni cysylltiedig

Cwmni, fel is-gwmni masnachu, y mae un neu fwy o sefydliadau elusennol yn berchen arno neu yn ei reoli.

cyfathrebiadau codi arian

Cyfathrebiadau sy'n annog pobl i roi, cyfrannu i neu gymryd rhan mewn codi arian. Mae hyn yn cynnwys:

- cyfathrebiadau hysbysebu a marchnata;
- gwybodaeth am dudalennau codi arian ar-lein;
- gwybodaeth sy'n cael ei ddarparu yn ystod sgysiau wyneb yn wyneb a phell (fel galwadau ffôn) gyda rhoddwyr posibl; a
- gwybodaeth sy'n cael ei ddarparu i bobl sy'n ystyried cymryd rhan mewn digwyddiadau 'her'.

cyfranogwr masnachol

Person neu fusnes sy'n hyrwyddo eu nwyddau neu wasanaethau ar y ddealltwriaeth y byddant yn gwneud cyfraniadau i un neu fwy o sefydliadau elusennol. Mae hwn yn ddiffiniad cyfreithiol sy'n cael ei nodi yn adran 58 o Ddeddf Elusennau 1992 ac adran 79 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddi Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005.

Nid yw codwyr arian proffesiynol a chwmnïau cysylltiedig yn gyfranogwyr masnachol. Efallai y bydd rhai gwirfoddolwyr er budd yn gyfranogwyr masnachol.

cynnwys ar-lein

Gwybodaeth, heblaw hysbysebu, gan sefydliadau elusennol am eu gweithgaredd codi arian sy'n ymddangos mewn manau ar-lein maen nhw'n eu rheoli, fel eu gwefannau a'u tudalennau cyfryngau cymdeithasol.

cystadleuaeth gwobrau

Cystadleuaeth sy'n gofyn am lefel o wybodaeth, barn neu sgil a fydd yn atal cyfran sylweddol o bobl rhag cymryd rhan neu ennill gwobr.

Dad-danysgrifio

Canslo tanysgrifiad i wasanaeth neu gyfathrebu.

data personol

Gwybodaeth neu ddata y mae posib ei ddefnyddio i adnabod person byw yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn darparu **mw y o fanylion ar ddata personol**.

datganiad caniatâd

Datganiad lle mae sefydliad yn esbonio sut y bydd yn defnyddio data personol rhywun cyn i'r person hwnnw gytuno ei fod yn hapus i'w ddata gael ei brosesu.

datganiad erfyniad

Datganiadau y mae'n rhaid i godwyr arian proffesiynol a chyfranogwyr masnachol (a phobl sy'n cael eu cyflogi ganddynt) eu rhoi yn ôl y gyfraith wrth godi arian ar gyfer sefydliad elusennol.

Rhaid i ymddiriedolwyr, swyddogion a staff sefydliadau elusennol hefyd roi datganiadau erfyniad os ydynt yn codi arian ar ran eu sefydliad ac yn cael eu talu'n fwy na swm penodol.

diben elusennol

Diben sy'n cael ei ystyried yn elusennol o dan gyfreithiau perthnasol Cymru a Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Diben sy'n cael ei ystyried yn elusennol o dan gyfreithiau perthnasol Cymru a Lloegr, Yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r cod yn cwmpasu codi arian sy'n cael ei gynnal at ddibenion elusennol.

Diddordeb cyfreithlon

Rheswm cyfreithiol (ar sail gyfreithlon) sy'n caniatáu i sefydliad brosesu data personol. Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn diffinio'r chwe sail gyfreithlon.

digwyddiadau her

Digwyddiadau codi arian sy'n codi arian trwy noddi person (neu grŵp o bobl) sy'n cymryd rhan mewn gweithgaredd penodol, fel rhedeg marathon neu ddringo mynydd.

digwyddiadau rhithiol

Digwyddiadau codi arian sy'n cael eu cynnal yn llawn neu'n rhannol ar-lein. Mae enghreifftiau'n cynnwys cwisiau fideo a marathon gemau wedi'u ffrydio'n fyw.

diwydrwydd dyladwy

Gwiriadau sy'n cael eu gwneud gan sefydliad elusennol i asesu'r risg i'w enw da neu eu cyllid wrth ystyried derbyn rhodd neu weithio gyda sefydliad neu berson penodol.

elusen

Corff sy'n cael ei adnabod fel elusen o dan ddeddfau perthnasol Cymru a Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon.

elusen eithriedig

Elusen sy'n elusennol o dan gyfraith Lloegr ond nad yw'n ofynnol iddi gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau (fel prifysgolion).

elusen gofrestredig

Sefydliad sydd wedi'i gofrestru gyda:

- y Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr;
- Rheoleiddiwr Elusennau Yr Alban; neu
- y Comisiwn Elusennau ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Enillion

Yr holl arian a'r holl eiddo arall sy'n cael ei roi mewn ymateb i apêl.

etifeddiaeth

Rhodd sy'n cael ei adael i sefydliad elusennol gan berson yn eu hewyllys.

Ewyllysiwr

Rhywun sydd yn gwneud ewyllys.

ffurflen nodd

Ffurflen lle mae rhoddwr yn cytuno i roi trwy wirfoddolwr er budd neu wirfoddolwr ar ran. Mae'r rhoddion hyn yn aml yn cael eu gwneud ar yr amod bod y gwirfoddolwr yn cwblhau digwyddiad her.

gorchymyn eithrio

Yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, gorchymyn sy'n caniatáu i sefydliadau gynnal casgliadau o ddrws i ddrws heb drwyddedau unigol gan awdurdod trwyddedu. Yn yr Alban, mae gorchymynion eithrio hefyd yn berthnasol i gasgliadau stryd.

Gwasanaeth dewis codi arian

Gwasanaeth rydym yn ei redeg fel bod pobl yn gallu gofyn i elusennau penodol i roi'r gorau i gysylltu â nhw gyda marchnata uniongyrchol.

Gwasanaeth Dewis Ffôn (TPS)

Gwasanaeth sy'n caniatáu i bobl a busnesau wneud cais i beidio â derbyn galwadau gwerthu byw a marchnata nad ydynt wedi gofyn amdanynt neu wedi cytuno i'w derbyn. Mae hyn yn cynnwys galwadau codi arian.

Gwasanaeth dewis postio (MPS)

Gwasanaeth sy'n caniatáu i bobl wneud cais i beidio â derbyn marchnata uniongyrchol i'w cyfeiriad post nad ydynt wedi gofyn amdano neu wedi cytuno i'w dderbyn.

gwirfoddoli

Person sydd, heb daliad neu fudd sylweddol arall (heb gynnwys treuliau), yn codi arian neu'n ymwneud â gweithgaredd codi arian ar gyfer sefydliad elusennol. Gweler hefyd gwirfoddolwr er budd a gwirfoddolwr ar ran.

gwirfoddolwr ar ran

Gwirfoddolwr sydd wedi cael ei ofyn neu wedi'i gyfarwyddo i godi arian ar ran sefydliad elusennol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n [canllaw ar wirfoddolwyr](#).

gwirfoddolwr er budd

Gwirfoddolwr sydd heb gael ei wahodd neu ei gyfarwyddo gan y sefydliad elusennol mae nhw yn casglu rhoddion ar eu cyfer i godi arian ar eu rhan.

Am fwy o wybodaeth, ewch i'n [canllaw ar wirfoddolwyr](#).

gwrthdaro buddiannau

Sefyllfa ble gall person sy'n gwneud penderfyniadau ar ran sefydliad elusennol gael (neu bod lle i gredu y gallai gael) ei ddylanwadu gan gyfrifoldebau, ymrwymïadau neu berthnasau eraill.

man cyhoeddus

Cymru a Lloegr

Unrhyw briffordd neu unrhyw le arall lle mae caniatâd i aelodau'r cyhoedd gael mynediad iddo ar adeg y codi arian ac nad yw mewn adeilad (ac eithrio mannau cyhoeddus mewn gorsafoedd trên, meysydd awyr, ardaloedd siopa neu debyg). Nid yw'n cynnwys unrhyw le y gall y cyhoedd ei gyrraedd gyda thocyn neu ar ôl talu tâl mynediad yn unig, neu o ganlyniad i ganiatâd sy'n cael ei roi ar gyfer y codi arian.

Yr Alban

Unrhyw le (boed yn brif ffordd neu lwybr) y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad anghyfyngedig iddo. Mae'n cynnwys drysau neu fynedfeydd adeiladau wrth ymyl y man cyhoeddus ac unrhyw dramwyfa, cwrt, grisïau, gardd neu iard sy'n cael ei rannu sy'n berthnasol i unrhyw eiddo tenement neu grŵp o dai ar wahân.

Gogledd Iwerddon

Unrhyw stryd, ffordd neu briffordd ac unrhyw le y mae gan bob neu ambell i aelod o'r cyhoedd fynediad iddo ar adeg y codi arian. Gall hyn fod oherwydd bod ganddynt hawl gyhoeddus i fod yno, oherwydd eu bod wedi talu tâl mynediad neu wedi cael caniatâd (uniongyrchol neu fel arall).

marchnata uniongyrchol

Ceisiadau codi arian a hysbysebu sy'n cael eu gyrru i berson penodol. Mae enghreifftiau'n cynnwys e-byst, llythyrau a thaflenni.

monitro

Gwiriadau sy'n cael eu cynnal gan sefydliad elusennol i wneud yn siŵr bod eu partneriaid codi arian yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn unol â thelerau eu cytundebau.

optio allan

Pan fo person yn gofyn am beidio â derbyn cyfathrebiadau gan sefydliad penodol neu grŵp o sefydliadau (naill ai i roi'r gorau i dderbyn unrhyw gyfathrebiadau neu dim ond y rhai sy'n cael eu hanfon trwy ddull cyfathrebu penodol).

optio i mewn

Pan fo person yn rhoi caniatâd wrth ddangos, trwy weithred gadarnhaol glir (er enghraifft, trwy dicio blwch gwag), eu bod am i sefydliad penodol neu grŵp o sefydliadau gysylltu â nhw.

partner codi arian

Sefydliad neu berson sydd â chytundeb ffurfiol gyda sefydliad elusennol i godi arian ar ei ran. Gall partneriaid codi arian fod yn godwyr arian proffesiynol neu gyfranogwyr masnachol.

Mae'r term partner codi arian yn cynnwys isgontractwyr partneriaid codi arian a phobl sy'n cael eu cyflogi gan bartner codi arian (neu is-gontractwr).

partner corfforaethol

Sefydliad masnachol sy'n rhoi arian, sgiliau neu adnoddau eraill i sefydliad elusennol. Os yw partner corfforaethol yn cynnal gweithgaredd codi arian, gall ddod o fewn y diffiniad o godwr arian trydydd parti neu bartner codi arian (neu'r ddau).

platform codi arian ar-lein

Gwefannau ac apiau sy'n caniatáu i sefydliadau elusennol, pobl a busnesau i godi arian torfol at ddibenion elusennol, dyngarol neu lesiannol.

Mae llawer o blatfformau codi arian ar-lein hefyd yn caniatáu i bobl godi arian at achosion personol, ond nid yw'r gweithgaredd hwn yn cael ei gwmpasu gan y cod.

prosesu (data personol)

Unrhyw weithred a wnewch gyda data personol rhywun. Mae hyn yn cynnwys ei drefnu, ei ailstrwythuro a'i ddiweddarau. Mae cadw data rhywun yn cyfrif fel prosesu hyd yn oed os nad ydych chi'n gwneud unrhyw beth arall gyda'r data.

pwrpas cyfyngedig

Pan fydd sefydliad elusennol yn gofyn am roddion ar gyfer prosiect penodol neu ddarn o waith (er enghraifft, i brynu darn o offer meddygol neu atgyweirio to eglwys).

*

*Bydd yr adran hon yn destun diwygiad bach yn y fersiwn derfynol o'r cod (Tachwedd 2025). [Darllenwch ein blog am ragor o fanylion a'n heglurhad o'r newidiadau.](#)

pwrpas dyngarol neu lesiannol

Pwrpas dyngarol neu lesiannol yw budd cyhoeddus ehangach nad yw'r gyfraith yn ei ddiffinio yn elusennol. Mae'r cod yn cwmpasu codi arian sy'n cael ei gynnal at y dibenion yma.

Rafflau am ddim

Cystadleuaeth sydd:

- yn rhad ac am ddim i gymryd rhan; neu
- efo dulliau mynediad am ddim neu â thâl

Os oes gan rafflau am ddim ddulliau mynediad am ddim neu â thâl, rhaid i'r system sy'n dyrannu gwobrau beidio â gwahaniaethu rhwng y ddau.

rheoliadau enghreifftiol

Cymru a Lloegr yn unig

Rheoliadau sy'n berthnasol i gasgliadau stryd am arian ac sy'n cael eu nodi yn y Gorchymyn Casgliadau Elusennol (Darpariaethau Trosiannol) 1974. Mae llawer, ond nid pob un o'r awdurdodau trwyddedu yn dilyn y rheoliadau enghreifftiol.

Mae'n cael ei dderbyn yn gyffredinol nad yw'r rheoliadau enghreifftiol yn berthnasol i gasgliadau stryd sy'n gofyn i bobl gofrestru i wneud rhoddion rheolaidd trwy ddebyd uniongyrchol.

rhodd

Rhodd ariannol neu o eiddo arall sy'n cael ei roi a'i dderbyn yn wirfoddol heb ddisgwyl neu dderbyn rhywbeth yn ôl.

Os yw person yn derbyn budd yn gyfnewid am rodd, efallai na fydd y rhodd yn gymwys i gael rhyddhad treth, ond efallai gall gael ei gwmpasu yn y cod fel codi arian.

Rhodd Cymorth

Cynllun sy'n cael ei reoli gan CThEF sy'n caniatáu i elusennau cofrestredig hawlio treth yn ôl ar roddion cymwys gan drethdalwyr y DU.

rhoddwr

Person neu sefydliad sy'n rhoi rhodd i sefydliad elusennol.

Rhoi trwy Gyflogres

Dull o roi arian trwy'r system Talu Wrth Ennill (PAYE) o gyflogau neu bensiwn rhywun i elusen heb dalu treth arno. Mae Rhoi trwy Gyflogres weithiau yn cael ei adnabod fel 'rhoi wrth ennill' neu 'rhoi yn y gweithle'.

rhoi'n gyfleus

Dulliau o godi arian sy'n caniatáu i bobl wneud rhoddion yn gyflym ac yn hawdd (fel arfer symiau llai o arian) gan ddefnyddio technoleg. Maent yn cynnwys Tap to Donate, talgrynnu trafodion a rhoi drwy neges destun. Yn aml, nid oes angen i godwr arian fod yn bresennol ar gyfer rhoi cyfleus.

safle preifat

Safle ar dir preifat y mae cytundeb gyda pherchennog neu reolwr yr eiddo ar ei gyfer sy'n caniatáu bod posib codi arian yno. Os oes cytundeb ar waith, fel arfer mae'n berthnasol i dir sy'n eiddo masnachol y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad ato, fel canolfannau siopa.

sefydliad codi arian proffesiynol

Sefydliad sy'n gweithio gyda busnesau ac elusennau i hyrwyddo rhoi trwy gyflogres yn y gweithle.

sefydliad elusennol

Sefydliad a gafodd ei greu ar gyfer dibenion nad ydynt efallai yn elusennol o fewn y gyfraith, ond sydd yn ddyngarol neu lesiannol. Mae hyn yn cynnwys elusennau (sydd wedi'u cofrestru neu sydd wedi'u heithrio), sefydliadau gwirfoddol a chwmnïau buddiant cymunedol.

sieciau a thalebau elusen

Mae sieciau a thalebau elusennol yn nodwedd o gyfrifon rhoddwyr treth-efeithlon. Mae rhoddwyr yn talu swm un-tro neu symiau rheolaidd i'r cyfrifon yma. Maen nhw'n gallu defnyddio sieciau neu dalebau i roddi i sefydliadau elusennol o'r cyfrifon yma.

Bydd yr asiantaeth sy'n rheoli'r cyfrif yn hawlio ac yn ychwanegu Rhodd Cymorth i'r rhodd cyn iddo gael ei dalu. Pan fydd y sefydliad elusennol yn derbyn y daleb elusennol neu'r siec, mae'n cysylltu â'r asiantaeth i drefnu bod y rhodd yn cael ei drosglwyddo.

stryd

Cymru a Lloegr, a Gogledd Iwerddon

Yn cynnwys unrhyw briffordd, pont gyhoeddus, ffordd, lôn, llwybr troed, sgwâr, cwrt, neu dramwyfa p'un ai yw'n brif ffordd neu lwybr neu beidio.

Yr Alban

Mae ganddo yr un ystyr â 'lle cyhoeddus (Yr Alban)'.

talgrynnu

Dull codi arian lle mae busnesau yn caniatáu i gwsmeriaid ddewis os ydynt am dalgrynnu eu bil neu eu taliad (er enghraifft, i'r £1 neu £10 agosaf), a rhoi'r swm ychwanegol i sefydliad elusennol.

Tap to Donate

Dull o wneud rhoddion electronig o swm penodol i sefydliad elusennol gan ddefnyddio dulliau talu digyswllt (fel cerdyn debyd neu ffôn symudol).

Gallai hyn fod ar safle'r sefydliad ei hun (megis plasty neu amgueddfa) neu mewn lleoliad ar wahân.

tir preifat

Tir sy'n eiddo preifat. Gall hyn gynnwys tir y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad iddo, fel canolfannau siopa.

tŷ cyflawni

Sefydliad sy'n casglu neu'n prosesu (neu'r ddau) rhoddion ar ran sefydliad elusennol.

ysgutor

Person neu sefydliad sy'n gyfrifol yn gyfreithiol am gyflawni'r dymuniadau sydd wedi cael eu nodi mewn ewylllys person.
